



Wylfa Newydd Project

Statement of Common Ground between
Horizon Nuclear Power Wylfa Limited and
Fforwm Iaith Môn (FfIM) (Welsh Translation)

PINS Reference Number: EN010007

19 February 2019

Revision 1.0

Examination Deadline 6

Regulation Number: 5(2)(q)

Planning Act 2008

Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009

[This page is intentionally blank]

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
1.1	Statws y Datganiad Tir Cyffredin hwn	1
1.2	Diben y ddogfen hon	1
1.3	Disgrifiad o'r Datblygiad.....	2
	<i>Prosiect Wylfa Newydd</i>	<i>2</i>
	<i>Y Gwaith Galluogi.....</i>	<i>2</i>
	<i>Prosiect DCO Wylfa Newydd.....</i>	<i>3</i>
2	Ymgynghori â Fforwm Iaith Môn.....	5
	<i>Amserlen y cyfarfodydd.....</i>	<i>5</i>
	<i>Sylwadau gan Fforwm Iaith Môn</i>	<i>6</i>
3	Y sefyllfa ar hyn o bryd	7
3.1	Y sefyllfa ar hyn o bryd gyda'r Datganiad Tir Cyffredin hwn	7
3.2	Safbwynt Pŵer Niwclear Horizon a Fforwm Iaith Môn	7

Rhestr o'r Tablau

Tabl 2-1	Amserlen Cyfarfodydd Fforwm Iaith Môn: Datganiad Tir Cyffredin.....	6
Tabl 2-2	Sylwadau gan Fforwm Iaith Môn	6
Tabl 3-1	Datganiad Tir Cyffredin rhwng Fforwm Iaith Môn a Horizon.....	8

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

1 Cyflwyniad

1.1 Statws y Datganiad Tir Cyffredin hwn

1.1.1 Mae Pŵer Niwclear Horizon (a fydd yn cael ei alw'n 'Horizon' o hyn ymlaen) wedi datblygu'r Datganiad Tir Cyffredin hwn fel drafft iteradd er mwyn adlewyrchu'r hyn y mae'n ei ddeall ynghylch safbwynt Fforwm Iaith Môn, yn ôl yr hyn a fynegwyd ar lafar mewn cyfarfodydd neu mewn gohebiaeth. Mae'n adlewyrchu'r materion y mae cytuno ac anghytuno yn eu cylch, yn ogystal â materion parhaus, a hynny'n gywir, hyd eithaf ei wybodaeth. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw'n cael ei gyflwyno fel drafft y mae Fforwm Iaith Môn wedi cytuno ag ef nac wedi'i gadarnhau. Hefyd, mae rhai mudiadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Môn wedi dewis peidio â chymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r Datganiad Tir Cyffredin hwn.¹

1.1.2 Mae Horizon yn parhau i weithio gyda Fforwm Iaith Môn ar ddatblygu'r drafft er mwyn cyrraedd statws y bydd modd ei lofnodi a'i gyflwyno fel datganiad y mae'r ddwy ochr yn cytuno arno.

1.2 Diben y ddogfen hon

1.2.1 Mae'r Datganiad Tir Cyffredin hwn yn ddogfen 'fyw' sydd wedi'i pharatoi gan Horizon yn dilyn trafodaethau â Fforwm Iaith Môn. Mae'r datganiad wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol² ac enghreifftiau o Ddatganiadau Tir Cyffredin sydd ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio.³

1.2.2 Diben y Datganiad Tir Cyffredin hwn yw cyflwyno gwybodaeth ffeithiol, y cytunwyd arni, ynghylch y cais ar gyfer cydsyniad datblygu a gaiff ei gyflwyno gan Horizon ar gyfer adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, ynghyd â datblygiadau cysylltiedig ar y safle ac oddi ar y safle (a fydd yn cael ei alw'n 'Prosiect DCO Wylfa Newydd' o hyn ymlaen).

1.2.3 Mae paragraff 58 Canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn datgan:

Mae datganiad tir cyffredin yn ddatganiad ysgrifenedig sy'n cael ei baratoi ar y cyd gan yr ymgeisydd a pharti neu bartion eraill, gan nodi unrhyw faterion y maent yn cytuno arnynt. Yn ogystal â nodi materion nad oes dadlau yn eu cylch mewn gwirionedd, mae hefyd yn ddefnyddiol i ddatganiad nodi'r meysydd hynny lle nad oes cytundeb. Dylai'r

¹ Mae'r rhain yn cynnwys CSYM a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Mae rhagor o fanylion ar gael yn adran 2.13-2.1.4 y ddogfen hon.

² Planning Act 2008: Guidance for the examination of applications for development consent (Mawrth 2015) paragraffau 58 – 65
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/418015/examinations_guidance-final_for_publication.pdf

³ <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/application-process/example-documents/>

datganiad gynnwys cyfeiriadau i ddangos lle bydd y materion hynny'n cael eu trafod yn y sylwadau ysgrifenedig neu dystiolaeth ddogfennol arall.

- 1.2.4 Nod y Datganiad Tir Cyffredin hwn, felly, yw nodi'n glir beth yw safbwyntiau Horizon a Fforwm Iaith Môn o ran i ba raddau y maent wedi trafod a chytuno ar faterion sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd, a beth yw statws hynny, hyd at 19 Chwefror 2019.
- 1.2.5 Mae Canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cydnabod y bydd Datganiadau Tir Cyffredin yn parhau i esblygu yn y cyfnod sy'n arwain at y gwaith archwilio ac yn ystod hynny (drwy drafodaethau parhaus rhwng y ddau barti os bydd angen), ac yn wir, mae'n disgwyl i hynny ddogfydd. Cyflwynir y Datganiad Tir Cyffredin hwn fel drafft terfynol. Serch hynny, gan gydnabod bod gwaith ar y datganiad hwn wedi cychwyn yn hwyrach nag ar y datganiadau gyda phartion eraill (oherwydd cafodd ei baratoi yn dilyn cais gan yr Awdurdod Archwilio), nid yw wedi bod yn bosibl i'r partion ddod i gytundeb llwyr ynghylch y materion.
- 1.2.6 Er ein bod yn cydnabod mai Dyddiad Cau 6 yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno'r Datganiad Tir Cyffredin terfynol, bydd trafodaethau'n parhau rhwng Horizon a Fforwm Iaith Môn, er mwyn ehangu'r meysydd tir cyffredin, a bydd yr awdurdod archwilio'n cael diweddariad ar ôl y dyddiad hwn, os bydd hynny'n briodol.
- 1.2.7 Mae cyfarfodydd a thrafodaethau parhaus rhwng Horizon a Fforwm Iaith Môn wedi bod yn sail ar gyfer datblygu'r Datganiad Tir Cyffredin hwn (mae rhagor o fanylion yn adran 2 yn y ddogfen hon). Cyfarfu Horizon â Fforwm Iaith Môn i drafod y Datganiad Tir Cyffredin ar 14 Rhagfyr 2018, a darparodd Horizon y drafft cyntaf o'r Datganiad hwn ar 21 Ionawr 2019, er mwyn cael mewnbwn a sylwadau Fforwm Iaith Môn.
- 1.2.8 Cyflwynir y Datganiad Tir Cyffredin hwn i'r Awdurdod Archwilio yng nghyswllt cais gan Horizon o dan adran 37 o Ddeddf Cynllunio 2008 (y Ddeddf) am orchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd.

1.3 Disgrifiad o'r Datblygiad

Prosiect Wylfa Newydd

- 1.3.1 Mae Prosiect Wylfa Newydd yn cynnwys:

Y Gwaith Galluogi

- 1.3.2 Mae'r Gwaith Galluogi yn cynnwys y Cynigion ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle a'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025.
- 1.3.3 Mae Horizon wedi cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer y Gwaith Galluogi o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) fel awdurdod cynllunio lleol. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y Gwelliannau i'r Briffordd ar 13 Gorffennaf 2018 (cyf: 27C106E/FR/ECON). Penderfynodd yr awdurdod cynllunio ganiatáu'r cais ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle yn amodol ar lofnodi cytundeb cyfreithiol, ar 5 Medi 2018. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at CSYM ar 13 Rhagfyr 2018, yn dweud mai Gweinidogion

Cymru ddylai wneud penderfyniad ynghylch y cais ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle (galw'r cais i mewn). Mae Horizon bellach wedi ysgrifennu at CSYM a Llywodraeth Cymru i gadarnhau ei fod yn tynnu'r cais ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle yn ôl, a bod yr holl waith a oedd wedi'i gynnwys yn y cais hwnnw wedi'i gynnwys fel rhan o'r cais am DCO.

- 1.3.4 Er mwyn cynnal hyblygrwydd yn y broses gydsynio ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd, mae'r Cynigion ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle hefyd wedi cael eu cynnwys yn y cais am DCO. Nid yw'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025 yn rhan o'r cais am DCO.

Prosiect DCO Wylfa Newydd

- 1.3.5 Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys y rhannau hynny o Brosiect Wylfa Newydd a fydd yn cael cydsyniad drwy DCO, sef:

Y Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol

- **Yr Orsaf Bŵer:** gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig, gan gynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, y System Dŵr Oeri, cyfleusterau, adeiladau, strwythurau ac offer cefnogol, adeiladau i storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol a'r Cysylltiad â'r Grid;
- **Datblygiadau eraill ar y safle:** gan gynnwys gwaith tirweddu a phlannu, draeniau, systemau rheoli dŵr wyneb, gwaith mynediad i'r cyhoedd gan gynnwys cau a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro ac yn barhaol, Ffordd Fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer a ffordd mewnol y safle, llefydd parcio, compowndiau adeiladu ac ardaloedd parcio dros dro, ardaloedd gosod, ardaloedd gweithio a gwaith a strwythurau dros dro, ardal dros dro i wyllo'r gwaith adeiladu, dargyfeirio cyfleustodau, ffensys y ffin a ffensys adeiladu, a chysylltiadau trydan;
- **Gwaith morol sy'n cynnwys:**
 - Gwaith Morol Parhaol: y System Dŵr Oeri, y Cyfleuster Dadlwytho Morol, strwythurau morglawdd, gwaith i ddiogelu'r lan, manau gollwng draeniau dŵr wyneb, man gollwng carthffrwd dŵr gwastraff (a draeniau cysylltiedig dŵr wyneb a charthffrwd dŵr gwastraff i'r môr), system achub a dychwelyd pysgod, system atal pysgod, cymhorthion mordwyo a Charthu;
 - Gwaith Morol Dros Dro: argaeau coffr dros dro, ramp mynediad dros dro, cymhorthion mordwyo dros dro, manau gollwng dros dro ac angorfa dros dro i gychod camlas;
- **Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer:** sy'n cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol;

Datblygiadau Cysylltiedig

- Campws y Safle yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;

- cyfleuster Parcio a Theithio dros dro yn Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu (Parcio a Theithio);
- Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi (Canolfan Logisteg);
- y Newidiadau i Briffordd yr A5025;
- gwaith i greu a gwella cynefinoedd gwlyptir i wneud iawn am unrhyw effeithiau posibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof yn y safleoedd canlynol:
 - Tŷ Du;
 - Cors Gwawr;
 - Cae Canol-dydd

1.3.6 Bydd yr Orsaf Bŵer yn weithredol am tua 60 o flynyddoedd. Ar ôl hynny, bydd yn cael ei datgomisiynu. Bydd yr adeiladau'n cael eu symud oddi ar y safle a bydd yr holl wastraff ymbelydrol a'r tanwydd a ddefnyddiwyd yn cael eu rheoli. Bydd cyflwr terfynol y safle yn cael ei gytuno gyda'r rheoleiddwyr.

Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu

- 1.3.7 Mae'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cynnwys y Gwaith Morol a Gwaredu Dyfnder (hynny yw, gwaredu'r deunyddiau ar ôl y gwaith Carthu yn y Safle Gwaredu yng ngogledd Caergybi). Bydd y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cael cydsyniad o dan Drwydded Forol; fodd bynnag, byddai'r Gwaith Morol yn cael cydsyniad o dan DCO hefyd.
- 1.3.8 Mae disgrifiad manylach o'r datblygiad ar gael ym Mhennod 4 y Datganiad Cynllunio [APP-406]..

2 Ymgynghori â Fforwm Iaith Môn

- 2.1.1 Yn ystod y Gwrandawriad Mater Penodol ynghylch y DCO a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2018, roedd yr Awdurdod Archwilio yn annog Horizon i ddatblygu Datganiad Tir Cyffredin â mudiadau cymunedol sy'n cynrychioli'r Gymraeg ac a oedd wedi cyflwyno Sylw Perthnasol.
- 2.1.2 Ar ôl cysylltu â CSYM a Chyngor Gwynedd ynghylch y mudiadau cymunedol yr oedd Horizon wedi'u hadnabod, cytunwyd y byddai'n fwy priodol i Horizon ddatblygu Datganiad Tir Cyffredin â Fforwm Iaith Môn. Mae Fforwm Iaith Môn yn bartneriaeth sy'n cynnwys sawl mudiad, gyda'r un diben o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd a wneir o'r iaith yn gyffredinol ar Ynys Môn.
- 2.1.3 Mae'r mudiadau canlynol wedi cyfrannu at y Datganiad Tir Cyffredin, drwy Fforwm Iaith Môn:
- Menter Iaith Môn;
 - Menter Môn;
 - Medrwn Môn;
 - Urdd Gobaith Cymru, Ynys Môn;
 - Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Môn;
 - Unllais;
 - Canolfan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin;
 - Mudiad Meithrin.
- 2.1.4 Mae Fforwm Iaith Môn yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau eraill, ond nid yw'r rhain wedi cyfrannu at y Datganiad hwn. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi dweud nad yw'n dymuno cyfrannu at y Datganiad Tir Cyffredin gyda Horizon, felly nid yw'r Datganiad hwn yn cynrychioli safbwyntiau Cymdeithas yr Iaith. Mae CSYM yn cael ei gynrychioli ar Fforwm Iaith Môn hefyd, ond mae wedi dewis peidio â chyfrannu at y Datganiad Tir Cyffredin hwn, gan fod Horizon wedi datblygu Datganiad ar wahân â'r Cyngor.
- 2.1.5 Mae'n werth nodi bod Menter Iaith Môn yn aelod o Grŵp Llywio Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg hefyd (gweler Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg [APP-432] am ragor o fanylion).
- 2.1.6 Mae Horizon wedi ymgysylltu â Fforwm Iaith Môn at ddibenion datblygu'r Datganiad Tir Cyffredin hwn yn ystod cyfnod archwilio'r cais am DCO.
- 2.1.7 Mae trafodaethau mewn cyfarfodydd rhwng Horizon a Fforwm Iaith Môn wedi bod yn sail ar gyfer paratoi'r Datganiad Tir Cyffredin drafft hwn, yn ogystal ag adborth ysgrifenedig gan Fforwm Iaith Môn ynghylch y mesurau sydd wedi'u cyflwyno yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.

Amserlen y cyfarfodydd

- 2.1.8 Cyfarfu Horizon â Fforwm Iaith Môn i drafod a chofnodi tir cyffredin ar y dyddiadau canlynol.

Tabl 2-1 Amserlen cyfarfodydd Fforwm Iaith Môn: Datganiad Tir Cyffredin

Dyddiad y cyfarfod	Yn bresennol	Diben y cyfarfod
Dydd Gwener, 14 Rhagfyr 2018	Horizon Fforwm Iaith Môn	Cyflwyno'r dull gweithredu ar gyfer y Datganiad Tir Cyffredin
Dydd Llun, 28 Ionawr 2019	Horizon Fforwm Iaith Môn	Trafod fersiwn drafft o'r Datganiad Tir Cyffredin

- 2.1.9 Mae Horizon wedi ymgysylltu â Fforwm Iaith Môn ar wahanol gamau yn ystod y broses o ddatblygu'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Cyflwynodd Horizon ddiweddariad o ran datblygu'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn ystod cyfarfodydd Fforwm Iaith Môn ym Mai 2017, Tachwedd 2017 ac Ionawr 2018.
- 2.1.10 Mae Horizon hefyd wedi ymgysylltu ag aelodau Fforwm Iaith Môn, gan gynnwys Urdd Gobaith Cymru Ynys Môn, Mudiad Meithrin, Menter Iaith Môn, Canolfan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, CSYM a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, wrth ddatblygu'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Cafodd pob un o'r mudiadau hyn wahoddiad i weithdy rhanddeiliaid (Hydref 2016) er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r mesurau gwella a lliniaru drafft (gweler Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg [APP-432] am ragor o fanylion). Mae Horizon wedi gwerthfawrogi cyfraniad Fforwm Iaith Môn yn ystod y broses o ddatblygu'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, ac mae'n credu bod y cydweithio hwn wedi cryfhau'r mesurau lliniaru a gwella yn sylweddol.
- 2.1.11 Hefyd, roedd dau o'r mudiadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Môn - CSYM a Menter Môn – yn aelodau o grŵp llywio'r AEIG hefyd, drwy gydol y broses o ddatblygu egwyddorion y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant o fis Mehefin 2016 ymlaen.

Sylwadau gan Fforwm Iaith Môn

- 2.1.12 Cyflwynodd Fforwm Iaith Môn sylwadau ar y dyddiadau yn Nhabl 2-2.

Tabl 2-2 Sylwadau gan Fforwm Iaith Môn

Dyddiad	Ymgynghori
Awst 2018	Sylwadau perthnasol
Dydd Mawrth, 15 Ionawr 2019	Sylwadau Fforwm Iaith Môn ynghylch y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar gyfer drafft cyntaf y Datganiad Tir Cyffredin
Dydd Mercher, 30 Ionawr 2019	Sylwadau Fforwm Iaith Môn ynghylch drafft cyntaf y Datganiad Tir Cyffredin, er mwyn diweddarau safbwynt Fforwm Iaith Môn.

- 2.1.13 Mae'r sylwadau a wnaed gan Fforwm Iaith Môn yn ystod mis Ionawr 2019 wedi bod yn sail ar gyfer cynnwys y Datganiad Tir Cyffredin hwn.

3 Y sefyllfa ar hyn o bryd

3.1 Y sefyllfa ar hyn o bryd gyda'r Datganiad Tir Cyffredin hwn

- 3.1.1 Mae Horizon wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â Fforwm Iaith Môn er mwyn datblygu'r Datganiad Tir Cyffredin drafft hwn. Nodir manylion am yr ymgysylltu hwn yn Nhabl 3.1.
- 3.1.2 Mae Horizon wedi datblygu'r Datganiad Tir Cyffredin hwn er mwyn adlewyrchu'r hyn y mae'n ei ddeall ynghylch safbwynt Fforwm Iaith Môn (ar 19 Chwefror 2019) a fynegwyd ar lafar mewn cyfarfod (14 Rhagfyr 2018) neu drwy ohebiaeth (gan gynnwys PAC2, PAC3 a Sylwadau Perthnasol) ond yn bennaf, ar sail y sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd ar 15 Ionawr 2019. Mae'n adlewyrchu'r materion y mae cytuno ac anghytuno yn eu cylch, yn ogystal â materion parhaus, a hynny'n gywir, hyd eithaf ei wybodaeth.
- 3.1.3 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Horizon a Fforwm Iaith Môn ar 28 Ionawr 2019 i drafod drafft cyntaf y Datganiad Tir Cyffredin hwn. Cyflwynodd Fforwm Iaith Môn sylwadau ar y drafft cyntaf, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y drafft terfynol, sy'n cael ei gyflwyno ar Ddyddiad Cau 6 (19 Chwefror 2019). Serch hynny, gan gydnabod bod gwaith ar y datganiad hwn wedi cychwyn yn hwyrach nag ar y datganiadau gyda phartïon eraill (oherwydd cafodd ei baratoi yn dilyn cais gan yr Awdurdod Archwilio), nid yw wedi bod yn bosibl i Horizon a Fforwm Iaith Môn ddod i gytundeb llwyr ynghylch nifer o'r materion a godwyd yn ystod y broses.
- 3.1.4 Er ein bod yn cydnabod mai Dyddiad Cau 6 yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno'r Datganiad Tir Cyffredin terfynol, bydd trafodaethau'n parhau rhwng Horizon a Fforwm Iaith Môn, er mwyn ehangu'r meysydd tir cyffredin, a bydd yr awdurdod archwilio'n cael diweddariad ar ôl y dyddiad hwn, os bydd hynny'n briodol. Mae Horizon yn credu y bydd nifer o'r materion y mae Fforwm Iaith Môn wedi'u codi yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Datganiad Tir Cyffredin hwn yn helpu i fod yn sail ar gyfer rhoi'r mesurau lliniaru a gwella ar waith.

3.2 Safbwynt Pŵer Niwclear Horizon a Fforwm Iaith Môn

- 3.2.1 Mae'r atodlen isod yn cyflwyno materion fesul pwnc ac yn rhoi syniad ynghylch a oes cytuno (gwyrdd) neu anghytuno (coch) ynghylch y materion hynny.
- 3.2.2 Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu egwyddor rhai o'r mesurau lliniaru a gwella yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Atodiad B4-1 yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg) [APP-428]. Dyma gyfeirnodau'r materion yn y Datganiad Tir Cyffredin: FflM 009, 010, 013, 016, 017, 026 a 028. Fodd bynnag, rydym yn anghytuno â lefel y manylion a ddarparwyd gan Horizon ynghylch cwmpas a gweithredu'r mesurau.

Tabl 3-1 Datganiad Tir Cyffredin rhwng Fforwm Iaith Môn a Horizon

Mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
Datganiad cyffredinol yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant	Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Ynys Môn	FfIM 001	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<p>Mae partneriaid Fforwm Iaith Môn wedi ymrwmo i Strategaeth Iaith Ynys Môn⁴ er mwyn cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn i 60.1% erbyn Cyfrifiad 2021. Gan ddechrau gyda sefyllfa o 57% o siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011, a strategaeth barhaus gan y sir a'r llywodraeth, yn ogystal â buddsoddiad ariannol rheolaidd, i gyrraedd y targed o 60.1%, rhaid i unrhyw fesur lliniaru fod yn unol ag ymrwymiadau'r Fforwm er mwyn cyrraedd y targedau hyn.</p> <p>O ganlyniad i ddatblygu Wylfa Newydd, mae'r her o gynyddu'r ganran hon ar ôl 2021 yn dwysáu.</p> <p>Fel man cychwyn, targed sylfaenol unrhyw raglen o fesurau lliniaru ar gyfer yr iaith sydd gan ddatblygwyr ddylai fod sicrhau bod Ynys Môn yn cyrraedd y targed o 60.1% o siaradwyr Cymraeg. Nid ydym yn teimlo bod y mesurau isod yn adlewyrchu targedau ieithyddol Ynys Môn.</p>	<p>Mae Horizon yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant i gymunedau Ynys Môn a gogledd Cymru. Mae Horizon wedi ymrwmo i gefnogi a hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ar draws pob agwedd ar Brosiect Wylfa Newydd yn ystod ei oes, gan gynnwys datblygu mesurau i lliniaru effeithiau niweidiol a hybu'r rhai sydd o fudd. Mae Atodlen 1 cytundeb adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) hefyd yn cynnwys mesurau lliniaru o ran y Gymraeg a'i diwylliant.</p> <p>Mae Horizon yn gwerthfawrogi cymhlethdod newid cymdeithasol-ieithyddol ac y gall amrywiaeth o ffactorau effeithio ar broffil gallu, caffael, trosglwyddo, defnyddio a dysgu iaith mewn poblogaeth. Felly, mae Horizon wedi datblygu cyfres o fesurau sy'n cyflwyno ymrwymiadau penodol i lliniaru'r effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant, ond sy'n ddigon hyblyg i addasu yn dilyn monitro rheolaidd. Mae'r mesurau sydd wedi'u datblygu wedi'u sicrhau drwy gytundeb adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) ac maent yn cynnwys ymrwymiadau penodol yn ogystal â chronfeydd wrth gefn.</p> <p>Mae Horizon yn gwerthfawrogi cyfraniad rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol allweddol yn cefnogi'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn Ynys Môn ac yng ngogledd Cymru ac mae wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o fudiadau cymunedol ers 2013 er mwyn cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau sy'n ymwneud a'r Gymraeg. Drwy ddatblygu'r cysylltiadau hyn, mae Horizon wedi ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y broses o ddatblygu ei fesurau lliniaru a gwella yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.</p> <p>Mae Horizon yn cydnabod y strategaethau iaith lleol a chenedlaethol, a phan fo hynny'n bosibl, yn ceisio cefnogi CSYM a phartneriaid Fforwm Iaith Môn i gyflawni nodau'r strategaethau hynny. Mae Horizon yn credu y gall Prosiect Wylfa Newydd chwarae rhan yn cefnogi nifer o'r nodau hyn, er enghraifft, gostwng nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ynys a chynyddu nifer y plant sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y gweithdai ar gyfer y mesurau lliniaru a gwella yn adlewyrchu prif themâu Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn (sydd hefyd yn adlewyrchu strategaeth Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a Chynllun Iaith Gymraeg manwl Ynys Môn (sy'n cael ei ddiweddarau bob blwyddyn). Mae Horizon yn credu bod yr AEIG (gan gynnwys y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng</p>	Ni chytunwyd ar hyn	

⁴ <https://www.ynysmon.gov.uk/Journals/q/b/n/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf>

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
					nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant) yn ystyried y strategaethau iaith lleol a chenedlaethol yn briodol, fel sy'n cael ei nodi yn Adran A.2, Cyfrol A yr AEIG [APP-432].		
	Risg o danseilio blynyddoedd o fuddsoddi yn y Gymraeg	FfIM 002	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	Mae Fforwm Iaith Môn yn nodi bod Horizon yn ceisio cael cymorth ariannol cyhoeddus Llywodraeth y DU ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd, er mwyn diwallu anghenion y DU o ran ynni. Ni ddylai prosiect sy'n cael ei gyllido'n rhannol gan Lywodraeth y DU danseilio blynyddoedd o fuddsoddiad helaeth yn y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, drwy Menter Môn, Menter Iaith Môn, Mudiad Meithrin, y Ganolfan Dysgu Cymraeg, Medrwn Môn, yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc ac Unllais.	Gweler ymateb Horizon i FfIM 001. Mae'r mesurau a ddatblygwyd yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ac a sicrhawyd yn adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) wedi cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol o 2016 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â grŵp llywio'r AEIG (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CSYM a Menter Iaith Môn), gweithdai i randdeiliaid (gan gynnwys cynrychiolwyr o grwpiau llywio'r AEIG yn ogystal ag Urdd Gobaith Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg, Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru).	Ni chytunwyd ar hyn	
	Lefel y manylder yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant	FfIM 003	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	Teimlad cryf ac unfrydol aelodau Fforwm Iaith Môn yw bod y 'Disgrifiad o'r Mesur' mewn perthynas â'r 24 mesur lliniaru yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Atodiad B4-1 yr AEIG) [APP-428] yn gyfres o ddatganiadau dyheadol. Tra croesewir egwyddor y mesurau mewn rhai achosion, barn glir yr aelodau yw bod angen llawer iawn mwy o fanylder na'r hyn a gynigiwyd a bod angen strategaeth fesuradwy (SMART), sydd wedi ei meintioli o ran effaith, amser ac adnoddau, a bod targedau clir wedi'u nodi.	Mae Atodlenni 1, 4 a 6 adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cynnwys rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r mesurau yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Mae'r rhain yn cynnwys cyfraniadau ariannol penodol, cronfeydd wrth gefn, ymrwymadau i gyflogi swyddogion a gofynion sy'n ymwneud â chynnwys Polisi Iaith Gymraeg Horizon. Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) hefyd yn nodi sut bydd y cyfraniadau ariannol a'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu rheoli a sut bydd taliadau'n cael eu hysgogi, ar sail y trefniadau llywodraethu a'r dulliau monitro y cytunwyd arnynt. Mae ymrwymadau i waith gwerthuso blynyddol a monitro parhaus wedi'u cynnwys yn adran 106 y DCO drafft hefyd (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019).	Ni chytunwyd ar hyn	
	Lefel y manylder yn yr asesiad.	FfIM 004	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	Nid yw'r dogfennau a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cynnig data digon manwl o gwbl ynghylch yr effaith ar gymunedau Ynys Môn, ee ni cheir dadansoddiad o effaith plant oed ysgol yn symud i'r ardal, na'r effaith ar gymunedau lle mae > 70% a >50% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Heb hyn, mae'n amhosibl cyflwyno mesurau lliniaru ystyrion ac effeithiol a'u rhoi ar waith. Barn Fforwm Iaith Môn yw y dylid cyflwyno data meintiol mewn gwahanol 'senarios' ee y senario waethaf, y senario ganolig a'r senario orau. Mae angen cynnwys dadansoddiad gwyddonol o'r fath yn flynyddol yn ystod y cyfnod adeiladu, ac yn ystod y cyfnod gweithredu Yn allweddol hefyd, nid yw'r mesurau yn mesur effaith y camau lliniaru, ac fel rhan o strategaeth byddai'n rhaid adolygu hyn yn rheolaidd.	Mae Horizon yn credu bod y fethodoleg ac ardaloedd yr astudiaeth a ddefnyddiwyd yn yr AEIG [APP-432] yn briodol er mwyn asesu effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r asesiad a gyflwynir yn yr AEIG yn ystyried gwaelodlin o ddata a gasglwyd, ac a gynhwyswyd yn yr AEIG [APP-432]. Mae Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi adolygu'r waelodlin ac mae Horizon yn credu ei fod yn gadarn. Mae methodoleg yr AEIG yn dilyn dull gweithredu cydnabyddedig sy'n seiliedig ar 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen' (2005). Mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml mewn Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, gan gynnwys rhai sydd wedi'u cynnal gan CSYM ac awdurdodau lleol eraill. Mae'r asesiad yn seiliedig ar senario realistig waethaf bosibl.	Ni chytunwyd ar hyn	
	Strategaeth Sgiliau Iaith	FfIM 005	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	Mae nifer o'r mesurau'n ymwneud â materion staffio. Mynegodd aelodau Fforwm Iaith Môn farn glir fod angen i Horizon lunio Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg gynhwysfawr a fydd yn cynnwys manylion priodol am yr holl faterion hyn mewn ffordd strategol a mesuradwy.	Nid oes gan Horizon strategaeth sgiliau iaith Gymraeg, ond mae'n credu bod yr ymrwymadau sydd wedi'u sicrhau yn adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019), wrth eu hystyried gyda'i gilydd, yn sail ar gyfer strategaeth sgiliau iaith Gymraeg a fyddai'n	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
					cael ei ffurfioli fel rhan o'i Bolisi Iaith Gymraeg diweddaraf. Byddai hyn yn gam pwysig o roi'r DCO ar waith.		
	Darparu adnoddau dynol	FfIM 006	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	Er mwyn cyflawni'r gwaith strategol hwn (gweler FfIM 005) sy'n cynnwys gwaith monitro, craffu a gweithredu ar lefel gymunedol aml-haenog ac eang, barn Fforwm Iaith Môn yw y bydd yn angenrheidiol sicrhau digon o adnoddau dynol. Nid yw'r mesurau sy'n cael eu cyflwyno yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Atodiad B4-1 yr AEIG) [APP-428], yn cynnig digon o adnoddau dynol.	Mae Horizon wedi datblygu'r mesurau a'r rhwymedigaethau ar sail sylfaen dystiolaeth gadarn. Mae cyllid ar gyfer nifer o swyddi allweddol a fydd yn cefnogi'r broses o roi'r mesurau ar waith wedi'i sicrhau drwy adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019). Mae hyn yn cynnwys Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Swyddogion Cynnwys y Gymuned, Athrawon Trochi Cymraeg, Swyddog y Gymraeg, Swyddogion Datblygu Economaidd a Swyddogion Llety. Yn ogystal â'r ymrwymadau hyn, mae cronfeydd wrth gefn wedi'u cynnwys yn adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019).	Ni chytunwyd ar hyn	
	Ymgysylltu â chynllunwyr iaith	FfIM 007	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	Er mwyn cyflawni'r awgrymiadau yn FfIM001-007, mae Fforwm Iaith Môn yn awgrymu'n gryf y dylid sicrhau arbenigedd cynllunwyr iaith i helpu gyda'r gwaith. Nid yw'n eglur pa sefyllfa y mae mudiadau bychan yr Ynys yn ei hwynebu o ganlyniad i'r mesurau lliniaru. Mae pryder o hyd ynghylch llywodraethu adran 106 y DCO, rôl mudiadau llai, a'r broses o gyflwyno cais am fuddsoddiad ar gyfer mudiadau llai, y bydd datblygiad Wylfa Newydd yn effeithio arnynt yn sylweddol.	Mae Horizon wedi penodi cynllunwyr iaith arbenigol, ac roedd eu rôl yn cynnwys hwyluso'r gweithdai â'r rhanddeiliaid allweddol a grwpiau cymunedol. Adborth o'r rhain oedd yn sail ar gyfer y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Roedd y cynllunwyr iaith arbenigol hefyd yn gyfrifol am adolygu'r AEIG, gan gynnwys adolygu'r fethodoleg ac ardaloedd yr astudiaeth yn arbennig. Bydd mudiadau cymunedol yn gallu cyflwyno cais i'r Gronfa Gymunedol a sicrhau yn Atodlen 12, adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019). O ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar, mae Atodlen 6 adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y caiff CSYM ddefnyddio'r Gronfa Addysg (Wrth Gefn) ar gyfer darpariaeth cyn ysgol.	Ni chytunwyd ar hyn	
	Effeithiau buddiol ar y Gymraeg a'i diwylliant	FfIM 008	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	Mae Fforwm Iaith Môn yn cydnabod bod rhai effeithiau buddiol i'w nodi hefyd, ond heb ymrwymadau pendant, gallai hyn danseilio a gwrthwneud gwaith a buddsoddiadau Mentrau, elusennau a mudiadau ym Môn dros ddegawdau. Mae sylwadau cyffredinol Fforwm Iaith Môn ynghylch yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, sydd wedi'u nodi yn FfIM 001-008 yn ganolog i'w safbwynt yng nghyswllt FfIM 009-032.	Cynhaliodd Horizon AEIG i asesu effeithiau tebygol camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Prosiect DCO Wylfa Newydd ar bum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol, sef: <ul style="list-style-type: none"> Nodweddion y boblogaeth; Ansawdd bywyd; Ffactorau economaidd; Cyflenwi seilwaith ac addysg; ac Agweddau cymdeithasol a diwylliannol. Caiff canfyddiadau allweddol yr AEIG, gan gynnwys effeithiau cadarnhaol a niweidiol y prosiect, eu cynnwys yn yr AEIG [APP-423] a cheir crynodeb yn adran 4 Crynodeb Annhechnegol yr AEIG [APP - 430]. Ym marn Horizon, gyda'r mesurau lliniaru, bydd yr effeithiau buddiol yn drech na'r effeithiau niweidiol – ceir manylion yn yr AEIG a chrynodeb yn adran 5 Crynodeb Annhechnegol yr AEIG [APP-430].	Ni chytunwyd ar hyn	
Mesurau lliniaru a gwella sy'n	Mesur 1 y Strategaeth	FfIM 009	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428)	1. Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu'r swydd - ond nid oes digon o eglurder yma:	Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn gytûn ynghylch penodi Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.	Ni chytun	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
ymwneud â'r gweithlu	Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Penodi Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant		(Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<p>2. Strategaethau a thargedau: Ni all Fforwm Iaith Môn ymateb yn llawn i'r Strategaeth oherwydd diffyg manylion, geiriau amwys a diffyg ymrwymiad pendant i raglen / terfynau amser, ac mae pryder yn parhau o ran targedau mesuradwy sydd i'w cyflawni gan Gydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.</p> <p>3. Disgrifiad swydd: Nid oes disgrifiad swydd i egluro'r agweddau sy'n ymwneud â chyfrifoldeb mewnol ac allanol, cydbwysedd a gwrthrychedd, a'r berthynas ag ieithoedd eraill.</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Mewnol: Mae pryder yn parhau ynglŷn â dylanwad Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant o fewn strwythur y cwmni. ii. Allanol: Mae pryder yn parhau ynglŷn â dylanwad Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar Grŵp Llywio'r AEIG, adran 106 y DCO, gwariant adran 106 y DCO ar ôl trosglwyddo i'r Awdurdod Lleol, a'r Grŵp Rheoli sy'n monitro'r Polisi Iaith. iii. Cydbwysedd: Mae pryder yn parhau ynglŷn â chydbwysedd y rôl rhwng y Cyflogwr (y datblygwyr) a Chydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant o ran cyflawni anghenion y cyflogwr a chynrychioli anghenion ieithyddol y gymuned. iv. Perthynas ag ieithoedd eraill: Mae pryder yn parhau ynglŷn â rôl Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant mewn perthynas ag ieithoedd eraill - nid Saesneg na Chymraeg, a'r angen i fodloni gofynion cyfathrebu'r gweithwyr hynny. <p>4. Gallu. Mae pryder yn parhau nad oes tîm o staff i gynorthwyo â gwaith Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Nid yw'n bosibl i un swyddog lliniaru maint effaith y datblygiad ar y Gymraeg. Nid yw'n realistig i'r un swyddog hefyd gynllunio a chefnogi'r 9,000 o weithwyr i'w cymathu yn ein cymunedau Cymraeg eu hiaith. Nid yw un swyddog yn gallu monitro a chynnig cymorth ag effaith mewnlifiad hyd at 9,000 o weithwyr, yn enwedig wrth ystyried canrannau (B.4.22 yr AEIG [APP-432]) sy'n dadwneud blynyddoedd o fuddsoddi o ran amser ac arian gan fudiadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Môn.</p> <p>5. Fforwm Iaith Môn sy'n gyfrifol am Strategaeth iaith Gymraeg Ynys Môn, "Ein gweledigaeth ar gyfer Cyfrifiad 2021 yw gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf</p>	<p>Mae Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn un o weithwyr Horizon, ac mae ei rôl yn cynnwys gweithredu'r mesurau lliniaru a gwella, a nodir yn y Strategaeth. Mae Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn gweithio o fewn tîm ymgysylltu â rhanddeiliaid, dan reolaeth y Pennaeth Datblygu Strategol (Cymru). Mae Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn aelod o grŵp llywio'r AEIG, a bydd yn aelod o Grŵp Ymgysylltu'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn ogystal â grŵp rheoli mewnol Horizon ar y Gymraeg a'i Diwylliant. Sicrhawyd rôl Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn Atodlen 1 o'r DCO drafft, adran 106 (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) sy'n nodi 'Bydd y Datblygwyr yn cyflogi Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant o'r cyfnod rhoi ar waith tan ddiwedd y Cyfnod Gweithredu (neu yn unol â chytundeb arall rhwng y Partion).'</p> <p>O ran y disgrifiad swydd, mae Atodlen 1, adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi ar hyd y Cyfnod Adeiladu, cytunir y bydd y rôl yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) <i>canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau lliniaru a gwella yng nghyswllt y Gymraeg a'i diwylliant;</i> (b) <i>monitro, mesur a gwerthuso gweithgareddau budd cymunedol yn ymwneud â'r Gymraeg a'i diwylliant a chymunedau cysylltiedig;</i> (c) <i>bod yn aelod o Grŵp Ymgysylltu'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, ac adrodd iddo;</i> (d) <i>gweithio'n agos gyda'r Swyddogion Cynnwys y Gymuned i gyflwyno'r Cynllun Gwaith ar y Cyd ar yd Effaith ar Gymunedau (fel y'i diffinnir yn Atodlen 14);</i> (e) <i>cynorthwyo'r Cyngor gyda gweithredu'r gwasanaeth cyfieithu cymunedol a sefydlwyd yn unol â Pharagraff [6] isod.</i> <p>Yn ystod y Cyfnod Gweithredu, nodir yn adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) y cytunir mai rôl Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> (f) <i>cyfrannu at adolygiadau blynyddol o'r polisi iaith Gymraeg;</i> (g) <i>cysylltu â phartneriaid allanol, gan gynnwys awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg;</i> 	wyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>60.1% fel ag yr oedd yn 2001. Drwy gydweithio a chymryd camau ymarferol, gellir cyflawni hyn.”⁵</p> <p>Mae targed Fforwm Iaith Môn o gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg yn parhau, ond o ganlyniad i effaith datblygiad Wylfa Newydd, mae graddfa'r dasg yn enfawr, fel mae asesiad y cwmni ei hun yn ei ddangos (pwynt B.4.22 yn yr AEIG [APP-432]):</p> <ol style="list-style-type: none"> gostyngiad o 17.2 pwynt canran yng ngogledd Ynys Môn; gostyngiad o 2.0 pwynt canran yng ngorllewin Ynys Môn; gostyngiad o 1.5 pwynt canran yn ne Ynys Môn; gostyngiad o 0.5 pwynt canran ar y tir mawr ger y Fenai <p>O ganlyniad, mae'n rhaid cael strategaeth, strwythur a thargedau yn seiliedig ar liniaru'r effaith ar ganran y siaradwyr er mwyn gweld effeithiolrwydd y swydd fel mesur lliniaru, ac yn bwysicaf oll, staff i roi hyn ar waith.</p> <p>6. Y casgliad gan hynny yw bod angen llawer mwy o dystiolaeth i nodi hyd a lled y swydd, ac i bwysu a mesur effeithiolrwydd y swydd a nodi bylchau na all y swydd hon eu llenwi, gydag esboniad o'r modd y bydd y datblygwr yn cyflawni'r swyddogaethau ychwanegol hyn.</p>	<p>(h) <i>hyrwyddo cymorth i ddefnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â Phrosiect DCO Wylfa Newydd drwy ddulliau eraill.</i></p> <p>Ni fydd Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn arwain tîm o staff, ond bydd yn cydweithio'n agos â staff addysg, hyfforddiant, Adnoddau Dynol, ymgysylltu â rhanddeiliaid, Swyddog Cynnwys y Gymuned (CIO) a staff y gadwyn gyflenwi yn Horizon.</p>		
	<p>Mesur 2 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Ystyried y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd ar y Prosiect</p>	FfIM 010	<p>Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)</p>	<ol style="list-style-type: none"> Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu'r fframwaith cymhwysedd sgiliau Cymraeg a'r offeryn asesu, yn ogystal â'r awydd am 'gymorth allanol posibl' i roi hyn ar waith. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Strategaeth Sgiliau Iaith ar waith. Ym marn Fforwm Iaith Môn, dylai pob swydd gael ei dynodi'n ddwyieithog (fel rhagosodiad). Drwy wneud hyn, yna mae'n bosibl nodi swyddi sydd angen arbenigedd Rhyngwladol, lle na fydd y Gymraeg yn hanfodol/dymunol o ran recriwtio. Byddai hon yn un ffordd ymarferol o adlewyrchu cefnogaeth ysgrifenedig Horizon i'r Gymraeg. Mewn perthynas â chanran sylweddol o'r swyddi, os gwneir dwyieithrwydd yn hanfodol neu'n dymunol, mae'n bosibl sicrhau gweithlu sy'n gwerthfawrogi ac yn barod i ddefnyddio ei sgiliau Cymraeg yn y gweithle neu ddysgu/cynyddu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn cyfeirio at arfer da cyflogwyr blaenllaw lleol fel Heddlu 	<p>Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn cytuno y bydd Horizon yn datblygu, mewn ymgynghoriad â CSYM a Llywodraeth Cymru, fframwaith cymhwysedd sgiliau Cymraeg ac offeryn asesu fel y sicrheir yn Atodlen 1 adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019), sy'n nodi y bydd y fframwaith a'r offeryn hwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> defnyddio Pecyn Cymorth Diagnostig Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg (sy'n cael ei gynhyrchu gan y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg); dilyn dogfen Strategaethau Sgiliau Iaith Gymraeg gweithle 5 lefel y Cyngor nodi rolau swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg a lefel y sgiliau neu amrywiaeth y lefelau sydd eu hangen; nodi'r rolau swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg lefel 3 neu uwch a fydd yn cynnwys [rolau sy'n wynebu'r cyhoedd, Swyddogion Cynnwys y Gymuned, a rolau mewnol diffiniedig fel aelodau staff y cafffi a'r tîm Adnoddau Dynol]; 	Ni chytunwyd ar hyn	

⁵ <https://www.ynysmon.gov.uk/Journals/q/b/n/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf>

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, a CSYM o ran arbenigedd yn y maes hwn.</p> <p>3. Mae pryder yn parhau nad oes cadarnhad i ymrwymo i lefelau galwedigaethol (sy'n amrywio o ran siarad, darllen, ysgrifennu, hyder a rhuglder), yn debyg i'r rhai a ddefnyddir gan CSYM / Heddlu Gogledd Cymru yn y maes hwn.</p> <p>4. Mae pryder yn parhau ynglŷn â'r diffyg ymrwymiad amser i sefydlu'r Fframwaith a'r Adnoddau Asesu a fyddai wedyn ar gael ar gyfer cyflwyno sylwadau. Mae'r Fforwm yn disgwyl y bydd ymgynghori'n digwydd gyda Chomisiynydd y Gymraeg, a than gyfarwyddyd y Comisiynydd, o ran arferion da.⁶</p> <p>5. Mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am gadarnhad y bydd Grŵp Llywio'r AEIG yn gallu cyfrannu at hyn ac yn gallu dylanwadu ar y broses.</p> <p>6. Mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am ragor o wybodaeth am y safonau iaith sydd eu hangen yn ystod y cam Adeiladu o'u cymharu â'r hyn y bydd ei angen yn ystod y cam gweithredu. Gwahodd mewnbwn gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ymgynghori a darparu hyfforddiant.</p> <p>7. Mae'n ymddangos bod Horizon yn gofyn am arweiniad ar sut i lunio Strategaeth Sgiliau Iaith, gan nad oes tystiolaeth o strategaeth a chynllun hyfforddi strwythuredig ar hyn o bryd: "Ar hyn o bryd, nid ydym yn cynnig darpariaeth benodol i helpu staff i wella eu sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, rydym yn anelu at gynnwys sgiliau iaith Gymraeg yn ein prosesau rheoli a hyfforddi staff yn y dyfodol." (Pwynt 6.2: Polisi Iaith Gymraeg Horizon)</p> <p>8. Mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am gadarnhad y bydd Horizon yn parhau i hysbysebu pob swydd yn ddwyieithog (yng Nghymru neu y tu allan i Gymru), bod dogfennau cais ar gyfer pob swydd yn ddwyieithog, a'r cyfle i ymgeisio a chael cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg heb anfantais.</p>	<ul style="list-style-type: none"> nodi amseriadau cyfnodol ar gyfer diweddariadau mewn ymgynghoriad â'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, a bydd y Datblygwr wedyn yn gweithredu fframwaith cymhwysedd sgiliau Cymraeg ac offeryn asesu tan ddiwedd y Cyfnod Gweithredu (neu fel y bydd y Partïon yn cytuno fel arall). <p>Mae adran106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y bydd Horizon yn sefydlu Polisi Iaith Gymraeg o'r cychwyn cyntaf hyd at ddiwedd y Cyfnod Gweithredu ac y bydd y polisi hwnnw'n cynnwys ac yn mynnu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Manylion am y mathau o gyfathrebu mewnol a fydd ar gael yn ddwyieithog. Mae arwyddion dros dro a pharhaol sy'n wynebu'r cyhoedd ar y Safleoedd sy'n ymwneud â Phrosiect DCO Wylfa Newydd yn ddwyieithog (ac eithrio lle mae diogelwch neu ystyriaethau perthnasol eraill yn mynnu bod arwyddion yn Saesneg yn unig). Darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r Gweithlu. Aelodau o staff i ddangos cwртеisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o'r Polisi Iaith Gymraeg. Datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer staff y Gweithlu gweithredu pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd (fel y pennir gan y fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg a sefydlwyd yn unol â Pharagraff [Error! Reference source not found.]). Sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Cynnal cynllun bathodyn siaradwyr Cymraeg y Datblygwr ac ymdrechu'n rhesymol i sicrhau bod ei gontractwyr yn defnyddio cynllun cyfatebol. Sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael ei gynnwys ar baneli cyfweled ar gyfer swyddi lle mae gofyn i'r ymgeiswyr gael sgiliau Cymraeg. Adolygu'r polisi bob blwyddyn. <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y bydd Horizon fel arfer yn rhoi gwybod am bob swydd wag i Wasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd a fydd yn eu hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg. Mae hefyd yn nodi, lle bydd Horizon neu ei gontractwyr yn hysbysebu swyddi gwag ar wahân i Wasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd Horizon, y bydd gofyn hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg drwy sianeli</p>		

⁶[http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20160308%20%20GC%20%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20\(T\).pdf](http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20160308%20%20GC%20%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20(T).pdf)

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>9. Mae Fforwm Iaith Môn yn nodi'r perygl y caiff yr iaith ei diraddio os clywir y Gymraeg ymhlith y sector gweithwyr llaw yn y gweithle yn unig, heb i'r iaith gael ei chlywed bob dydd gan beirianwyr a rheolwyr mwy arbenigol. Mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am gadarnhad y bydd Horizon yn gallu cynorthwyo uwch reolwyr dwyieithog Cymraeg/Saesneg i ddelio â geirfa dechnolegol yn y ddwy iaith, a gosod esiampl drwy godi statws yr iaith yn y gweithle drwy ei siarad yn broffesiynol.</p> <p>Mae manteision i Horizon gael rheolwyr sy'n gallu siarad Cymraeg - 'Speakers cannot express themselves adequately in one language, so switch to the other to make good the deficiency. This tends to happen when the speaker is upset, tired, or otherwise distracted...Switching to a language is very common as a means of expressing solidarity with a social group...and a degree of rapport is established.' (tudalen 414, 2006) ac "If we know we are being overheard by our seniors we may well alter the way we speak." (tudalen 325,2006) ⁷</p> <p>10. Mae angen cadarnhad y bydd isgontractwyr y cwmni yn rhoi pwyslais ar recriwtio staff dwyieithog. Awgrymwn y dylid egluro'r egwyddorion o ran defnyddio'r Gymraeg yng Nghod Ymddygiad y Gweithlu a'r Polisi Iaith y bydd yr isgontractwyr yn eu llofnodi.</p>	<p>recriwtio lleol a chenedlaethol sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y bydd Horizon yn cynnwys siaradwr Cymraeg ar baneli cyfweled ar gyfer ymgeiswyr am swyddi y mae'r Gymraeg yn iaith o ddewis iddynt, ar yr amod, os yw rôl y swydd yn galw am sgiliau iaith Saesneg, y bydd y sgiliau hynny hefyd yn cael eu hystyried yn y cyfweiliad hwnnw.</p> <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cynnwys nifer o rwymedigaethau a fyddai, wrth eu hystyried gyda'i gilydd, yn codi statws y Gymraeg yn y gweithle - hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, rhaglen hyfforddiant sgiliau Cymraeg, y Fframwaith sgiliau a chymwyseddau Cymraeg, arwyddion dwyieithog, mentora iaith Gymraeg a chynllun bathodyn siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Nid oes gan Horizon strategaeth sgiliau iaith Gymraeg, ond mae'n credu bod yr ymrwymiadau uchod, wrth eu hystyried gyda'i gilydd, yn sail ar gyfer strategaeth sgiliau iaith Gymraeg a fyddai'n cael ei ffurfioli fel rhan o'i Bolisi Iaith Gymraeg diweddaraf.</p> <p>O ran contractwyr, mae adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi ymhellach, cyn i gontractwyr ddechrau gwaith ar safleoedd, bydd Horizon yn darparu'r canlynol i'w gontractwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth am Bolisi a rhwymedigaethau Horizon o ran y Gymraeg yn [Error! Reference source not found.] a rôl y contractwyr wrth ddarparu polisi a rhwymedigaethau o'r fath, gan gynnwys, er enghraifft, drwy eu prosesau recriwtio a chyfathrebu mewnol ac allanol; • Gwybodaeth am gyflenwyr lleol, gan gynnwys y gronfa ddata fusnes sy'n cael ei datblygu gan CSYM, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru; ac • unrhyw ddeunydd arall y cytunir arno rhwng y Datblygwr a'r Cyngor. <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi, fel rhan o'r broses ymsefydlu ar gyfer y Gweithlu sy'n gweithredu ar y Safle, bydd Horizon yn darparu'r deunyddiau Cymraeg a ganlyn i'r Gweithlu sy'n mynd i sesiynau cynefino â'r safle o'r fath i godi ymwybyddiaeth a pharch at y Gymraeg a'i diwylliant, a siarad Cymraeg ymhlith y contractwyr a'r Gweithlu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pecynnau briffio Cymraeg a/neu ddeunyddiau cynefino; 		

⁷ How Language Works, David Crystal 2006

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
					<ul style="list-style-type: none"> y llyfryn "Byw mewn gwlad ddwyieithog" a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 2017; unrhyw ddeunydd arall y cytunir arno rhwng y Datblygwr a'r Cyngor. <p>Er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu'r rhwymedigaethau uchod, bydd Horizon yn cynnwys gofynion gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod perthnasol â chontractwyr.</p>		
	<p>Mesur 3 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Sicrhau gallu yn y Gymraeg wrth gyfnewid staff</p>	FfIM 011	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<p>1. Gweler FfIM 010. Nid oes Strategaeth Sgiliau Iaith i graffu arni, ond disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r swyddi angen sgiliau dwyieithog fel gofyniad hanfodol neu ddymunol.</p> <p>2. Dylai staff Recriwtio Horizon fod yn ddwyieithog er mwyn gallu delio â'r gweithlu cyfan, ac os nad yw aelod o banel penodi yn siarad Cymraeg, yna dylid cael cyfieithydd proffesiynol i gyfieithu atebion yr ymgeisydd a roddir yn Gymraeg ar gyfer aelod o'r panel.</p> <p>3. Heb ffafriaeth nac anfantais, o ran cyfle cyfartal, dylid cyfathrebu'n glir bod gan yr ymgeisydd yr hawli i gael ei gyfnewid yn Gymraeg, gydag un cwestiwn yn Saesneg i asesu sgiliau cyfathrebu yn Saesneg. Mae'r agwedd hon yn arbennig o bwysig, gan ein bod yn ystyried eich prentisiaid ifanc yn arweinwyr y diwydiant yn y dyfodol, ac felly mae cynnal eu sgiliau dwyieithog drwy gydol eu cyflogaeth yn bwysig iawn.</p> <p>Amlygir yr angen am hyn yn yr adroddiad dan y teitl 'Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog - Adroddiad Gweithgor yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol', 2016. Dangosir y diffyg dilyniant presennol rhwng yr amrywiol gyfnodau addysg a'r byd gwaith sy'n golygu bod unigolion sydd wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg neu sydd wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol yn aml yn colli eu sgiliau.</p> <p>Mae gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb i sicrhau nad yw hynny'n digwydd, er lles datblygiad personol unigolion ac er budd economi Cymru. Er mwyn helpu i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ac i sicrhau bod cyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg, mae angen creu amgylchedd lle mae staff a'r cyhoedd yn teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy diogel wrth roi cynnig ar eu sgiliau Cymraeg, a sicrhau bod cyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg.</p>	<p>Bydd yr asesiad o ofynion sgiliau Cymraeg yn cael ei yrru gan ddefnyddio'r fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg a'r offer asesu a sicrhawyd yn Atodlen 1 adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019).</p> <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y bydd Horizon yn cynnwys siaradwr Cymraeg ar baneli cyfnewid ar gyfer ymgeiswyr am swyddi y mae'r Gymraeg yn iaith o ddewis iddynt, ar yr amod, os yw rôl y swydd yn galw am sgiliau iaith Saesneg, y bydd y sgiliau hynny hefyd yn cael eu hystyried yn y cyfnewid hwnnw.</p> <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) hefyd yn nodi y bydd Horizon yn darparu hyfforddiant i reolwyr recriwtio perthnasol o ran defnyddio'r fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith a'r offeryn asesu i bennu gofynion iaith y rolau adeiladu a gweithredu, cofnodi'r wybodaeth hon a'i chynnwys yn y proffil swydd a hysbysebir.</p>	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>4. Dylid hysbysebu pob swydd, yn rhai arbenigol a rhai cyffredinol, mewn cyhoeddiadau yng Nghymru.</p> <p>5. Dylai'r hysbysebion fod yn ddwyieithog, gan gyfeirio at y ffaith y bydd asesiad o'r ddwy iaith yn ystod y cyfweiliad.</p> <p>6. Dylai'r testun yn nhempeld disgrifiad unrhyw swydd Horizon gynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle a'r gymuned. Dylid cyfeirio hefyd at y cyfle i ddysgu Cymraeg yn y gweithle pan nad yw'r iaith yn hanfodol ar gyfer y swydd.</p> <p>7. Unwaith eto, rydym yn gofyn am gadarnhad ynglŷn â'r weithdrefn mewn perthynas â lefelau sgiliau iaith i'w defnyddio gan Horizon.</p> <p>8. Noda Fforwm Iaith Môn bod Horizon yn disgwyl Buddsoddiad gan y Llywodraeth, ac felly rydym yn pwysleisio'r angen i gynnig cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg ac i gynnwys ymgynghori â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Chomisiynydd y Gymraeg, a defnyddio eu harbenigedd, wrth sefydlu'r Strategaeth Sgiliau iaith.</p> <p>Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol - Canolfan sy'n manteisio ar arbenigedd staff profiadol a blaenllaw yn genedlaethol ac sydd wedi datblygu rhaglen strwythuredig ac effeithiol i oedolion ddysgu Cymraeg. Mae angen cynllun sy'n nodi'r cyrsiau priodol a'r dilyniant o Gymraeg i Ddechreuwyr, Darganfod Cymru a'r Iaith Gymraeg, i lefel Dechreuwyr ar gyfer busnes, i rieni ac arwain at gyrsiau uwch. Yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol nodi'r pwyslais ar gyfathrebu neu ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn Gymraeg, ymwybyddiaeth iaith, gweithio'n ddwyieithog, datblygu hyder a defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle.</p> <p>Yn ogystal â thargedau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac 'Iaith Fyw Iaith Byw' 2012 - 2017 cyn hynny, roedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg yn ogystal ag aelodau eraill Fforwm Iaith Môn yn gweithredu ar sail polisiau a strategaethau cenedlaethol ar y Gymraeg fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</p> <p>Mae Fforwm Iaith Môn hefyd yn gofyn am esboniad ynglŷn â sut bydd Horizon yn cyfleu'r gofynion iaith i'w isgcontractwyr ac i'w hisgcontractwyr hwythau</p>			

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				hefyd. Rydym yn pwysleisio ei bod yn hanfodol i'r isgontractwyr gael staff sy'n gallu ymdrin â'r cyhoedd yn ddwyieithog yn ein cymunedau.			
	Mesur 4 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Parhau i ddsbarthu gwybodaeth am gyfleoedd swyddi i bobl ifanc	FfIM 012	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<p>1. Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu'r defnydd o siaradwyr Cymraeg fel modelau rôl ar gyfer pobl ifanc.</p> <p>2. Croesewir darparu adnoddau cwbl ddwyieithog, gan gynnwys dogfennau technegol y gall yr ymgeisydd eu defnyddio i gyfeirio at derminoleg safonol yn y Gymraeg.</p> <p>Yn achos nifer o ddisgyblion, mae'n bosibl mai'r cysylltiad hwn â Horizon fydd y cysylltiad cyntaf â'r diwydiant Peirianeg/gwyddonol. Gan hynny, rydym yn pwysleisio'r angen i'ch tîm ddarparu cyflwyniadau yn Gymraeg lle mae'r Gymraeg yn iaith addysg y disgyblion, yn unol â gofynion addysgol yr ysgol/Coleg a chyfle i ddatblygu profiadau dwyieithog pobl ifanc.</p> <p>"The problem is in the associations that accompany teaching Science and Mathematics through a majority language such as English. Scientific culture is seen as Anglo-American, and an increased status is given to the English language.... Is the hidden message that, the minority language is not up-to-date, isn't capable of scientific and mathematical usage, hasn't the vocabulary to enable scientific and mathematical teaching? Is the minority language therefore connected with history, culture, tradition, folk lore and heritage? Is the majority language connected with modernity, the high status and powerful aspects of Science and Technology? Does this make one language more internationally valued and the other language less so? In Spain and Wales, for example, there have been movements to try to ensure that science teaching, science textbooks and science thinking can all operate in a minority language. Considerable attempts have been made to show that a minority language can adapt to being a modern language. New vocabulary needs inventing, sometimes providing extra meaning to a scientific concept, and other times borrowing from the English, Greek or Latin languages." (tudalen 208,2014)</p> <p>Mae cyfle i Horizon fod yn arloesol yma yn ei ddefnydd o'r Gymraeg mewn maes arbenigol.</p> <p>3. Mae Fforwm Iaith Môn yn gweld rôl yma hefyd i'r Fforwm gefnogi Horizon drwy ledaenu'r neges am y cyflwyniadau sydd ar gael yn Gymraeg ar yrfaedd neu bynciau</p>	Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn cytuno y bydd siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael eu defnyddio fel modelau rôl mewn deunyddiau hyrwyddo. Sicrhawyd hyn yn Atodlen 1 adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019). Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn cytuno bod deunyddiau addysgol a chodi ymwybyddiaeth a chyflwyniadau am gyfleoedd gyrfa (gan gynnwys terminoleg dechnegol) yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Mae Cydlynnydd Rhaglen Addysg Horizon yn siarad Cymraeg, a chynhyrchir deunyddiau addysgol Dyfodol Horizon yn ddwyieithog. Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn cytuno bod cyfleoedd i fudiadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Môn gynorthwyo Horizon i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd gyrfa.	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				technoleg/peirianeg/gwyddoniaeth ar gyfer disgyblion yr ynys.			
	Mesur 5 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Targedu'r gwaith recriwtio at siaradwyr Cymraeg fel rhan o strategaethau recriwtio ehangach	FfIM 013	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<p>1. Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu'r ymrwymiad i hysbysebu pob swydd yn ddwyieithog.</p> <p>2. Nid yw'n gwbl eglur, felly mae Fforwm Iaith Môn yn dymuno cael cadarnhad y bydd pob swydd, pa un ai a ydynt yn swyddi arbenigol neu fel arall, yn cael ei hysbysebu mewn cyhoeddiadau yng Nghymru, fel: Golwg 360, lleol.cymru, Swyddle, Safle Swyddi, Recriwtio Cyf, ac ati.</p> <p>3. Wrth geisio targedu pobl ifanc yr ynys a thu hwnt, mae Fforwm Iaith Môn yn gweld rôl yma i aelodau Fforwm Iaith Môn gefnogi ymgyrch Recriwtio Horizon drwy rannu'r wybodaeth am swyddi drwy gysylltiadau aelodau'r Fforwm fel Menter Iaith Môn, Clybiau Ffermwyr Ifanc, yr Urdd a'r Mudiad Meithrin.</p> <p>Yn ôl adroddiad, roedd cyflogwyr yng ngogledd Cymru yn fwyaf tebygol o fod o'r farn bod cael staff â sgiliau iaith Gymraeg ar eu safle yn eithaf pwysig neu'n bwysig iawn (57%). Sgiliau Cymraeg oedd y pethau pwysicaf mewn perthynas â chysylltiadau a llesiant staff, yn ogystal â chadw staff yng ngogledd Cymru (39%).⁸</p> <p>Hoffai Fforwm Iaith Môn eglurder ynghylch sut bydd y gofyniad hwn yn cael ei gyfleu i'r isgontractwyr ac yna i'w hisgontractwyr hwythau. Awgrymwn y dylid egluro'r egwyddorion o ran defnyddio'r Gymraeg yng Nghod Ymddygiad y Gweithlu a'r Polisi Iaith y bydd yr isgontractwyr yn eu llofnodi.</p>	Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn gytûn y bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog. Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y bydd Horizon fel arfer yn rhoi gwybod am bob swydd wag i Wasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd a fydd yn eu hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg. Mae hefyd yn nodi, lle bydd Horizon neu ei gontractwyr yn hysbysebu swyddi gwag ar wahân i Wasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd Horizon, y bydd gofyn hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg drwy sianeli recriwtio lleol a chenedlaethol sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg.	Ni chytunwyd ar hyn	
	Mesur 6 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Cytuno ar bolisi cyfathrebu mewnol	FfIM 014	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<p>1. Mae'r geiriad hwn yn wahanol iawn i'r hyn a nodir dan bwynt 6.8 yn y Polisi Iaith 'Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn bob dwy flynedd o leiaf.' Mae angen eglurder yma.</p> <p>2. Cyfeiriwyd at bolisi iaith cyfredol Horizon i werthuso manylion ac effeithlonrwydd y Polisi. Mae Fforwm Iaith Môn yn gweld nifer o agweddau i'w diwygio yn y Polisi Cyfredol cyn iddo fod yn effeithiol i ddiogelu hawliau iaith gweithwyr Horizon a'r cyhoedd.</p>	Mae adran106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y bydd Horizon yn sefydlu Polisi Iaith Gymraeg o'r cychwyn cyntaf hyd at ddiwedd y Cyfnod Gweithredu ac y bydd y polisi hwnnw'n cynnwys ac yn mynnu: <ul style="list-style-type: none"> • Manylion am y mathau o gyfathrebu mewnol a fydd ar gael yn ddwyieithog. • Mae arwyddion dros dro a pharhaol sy'n wynebu'r cyhoedd ar y Safleoedd sy'n ymwneud â Phrosiect DCO Wylfa Newydd yn ddwyieithog (ac eithrio lle mae diogelwch neu ystyriaethau perthnasol eraill yn mynnu bod arwyddion yn Saesneg yn unig). 	Ni chytunwyd ar hyn	

⁸ 'Adroddiad ar Anghenion Sgiliau Iaith Gymraeg mewn Wyth Sector, 2014'

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>3. Mae Fforwm Iaith Môn yn nodi'r ymrwymiad i wasanaethau dwyieithog i'r <i>cyhoedd</i>, ee "Byddwn yn ystyried ac yn cofnodi pa lefel o sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol i gyflawni rhai swyddi penodol yn y sefydliad, ee lle mae cysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd". Mae'r Fforwm yn teimlo nad oes gan Horizon yr un ymrwymiad i'w ddyletswyddau i ddarparu cyfle cyfartal i'w <i>weithwyr</i>: "Ni allwn warantu y bydd cyfathrebiadau personol yn cael eu cynnal yn Gymraeg bob amser, ond rydym yn croesawu ac yn annog staff sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny."</p> <p>Wrth recriwtio, mae angen ymrwymiad cadarn i sicrhau bod yr holl staff sy'n darparu gwasanaethau'n fewnol, ee adnoddau dynol, derbynfa, diogelwch, ffreutur, yn meddu ar sgiliau Cymraeg 'hanfodol'. Dylid hefyd sicrhau y gall canran uchel o'r uwch reolwyr ddelio â materion rheoli staff yn rhugl ac yn ddwyieithog, neu fe fydd yn arwain at anfantais i'ch cyflogeion sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>4. Ar sail cyfleoedd cyfartal ieithyddol, nid yw'n dderbyniol peidio â chyfieithu pob dogfen gyflogaeth a chorfforaethol ar gyfer eich cyflogai.</p> <p>5. Dylid cyfieithu'r prif ddogfennau technegol hefyd, gan sicrhau geirfa dechnegol arbenigol yn y Gymraeg fel y gall y gweithwyr drafod eu gwaith yn effeithiol ac yn ddiogel yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa safonol. Un o themâu allweddol Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae un o'r penodau yn y Strategaeth yn canolbwyntio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac mae gan Horizon gyfle unigryw a rôl hanfodol i'w chwarae o ran yr ymrwymiad hwn. https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf (tudalen 48 y Strategaeth)</p> <p>6. Ni ddylai'r datblygwr roi pwysau rheoli ar staff i droi at y Saesneg os yw'n drafodaeth broffesiynol rhwng siaradwyr Cymraeg. Mae pryder yn parhau ynghylch diffyg cynllunio ymlaen llaw er mwyn osgoi gwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg sy'n dewis siarad Cymraeg yn y gweithle. Nid yw geiriad y Polisi Iaith yn ddigon cadarn, ac mae'n rhoi cyfle i reolwyr fynnu defnyddio Saesneg yn unig ar sail diogelwch: "Byddwn yn cefnogi ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle lle bynnag y bo'n bosibl, tra'n cydnabod mai Saesneg yw iaith</p>	<ul style="list-style-type: none"> Darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r Gweithlu. Aelodau o staff i ddangos cwртеisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o'r Polisi Iaith Gymraeg. Datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer staff y Gweithlu gweithredu pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd (fel y pennir gan y fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg a sefydlwyd yn unol â Pharagraff [Error! Reference source not found.]). Sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Cynnal cynllun bathodyn siaradwyr Cymraeg y Datblygwr ac ymdrechu'n rhesymol i sicrhau bod ei gontractwyr yn defnyddio cynllun cyfatebol. Sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael ei gynnwys ar baneli cyfweld ar gyfer swyddi lle mae gofyn i'r ymgeiswyr gael sgiliau Cymraeg. Adolygu'r polisi bob blwyddyn. <p>Gan hynny, bydd y rhwymedigaethau uchod yn disodli'r ymrwymadau ym Mholisi Iaith Gymraeg presennol Horizon. Mae adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau yn ymwneud â chontractwyr, ymgysylltu â</p>		

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>weithredol y diwydiant niwclear yn y Deyrnas Unedig ac iaith ein rheoleiddwyr.”</p> <p>7. Mae cyfieithu dogfennau ymgynghori technegol yn bwysig i'r cynghorau cymuned a lleol, gan fod llawer ohonynt yn trafod datblygiadau ac yn ymateb ar bapur yn Gymraeg. Mae'n anfantais iddynt os nad yw Horizon wedi darparu'r dogfennau yn Gymraeg, gan olygu nad yw'r cynghorau / y cyhoedd yn cael cyfle i ddyfynnu a defnyddio geirfa dechnegol arbenigol safonol wrth ymateb yn Gymraeg.</p> <p>8. Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu ymgymieriad Horizon i sicrhau bod yr isgontractwyr yn ymrwmo i'r Polisi Iaith "Byddwn yn annog Contractwyr neu drydydd parti sy'n cynnal gweithgareddau ar ein rhan i gydymffurfio â'r polisi hwn.”</p> <p>Fodd bynnag, nid yw'r gair "annog" yn ddigon cadarn. Hoffai'r Fforwm gael cadarnhad y bydd Horizon yn rhwymo isgontractwyr i'r Polisi Iaith drwy eu contractau cyfreithiol, ac y bydd y contract hefyd yn rhwymo isgontractwyr Haen 2 a 3.</p> <p>9. Rydym yn gofyn am gadarnhad y bydd Horizon yn ymgynghori ac yn derbyn arweiniad Comisiynydd y Gymraeg wrth lunio Polisi Iaith mwy cadarn? Mae pryder yn parhau ynglŷn â swyddogaeth monitro effeithiolrwydd y Polisi Iaith a chydymffurfiaeth Horizon a'i isgontractwyr.</p> <p>10. Dylid trafod y gwaith blynyddol i ddiweddarau'r Polisi Iaith Gymraeg gyda'r byrddau a grybwyllir ym Mesurau 21 a 22 (Grŵp Rheoli / Grŵp Rhanddeiliaid Allanol) y Strategaeth (atodiad B4-1 yr AEIG) [APP-432]. Mae rôl y grwpiau hyn yn aneglur i Fforwm Iaith Môn - mae angen esboniad.</p>			
	<p>Mesur 7 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Sicrhau bod arwyddion dwyieithog yn cael eu defnyddio</p>	FfIM 015	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<p>1. Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu'r ffaith bod holl arwyddion cyhoeddus y datblygiad, yn rhai dros dro a pharhaol, yn mynd i fod yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg).</p> <p>2. Yn unol ag arfer lleol, mae angen i'r Gymraeg fod uwchben neu i'r chwith ac yn gyfochrog â'r Saesneg.</p> <p>3. Nid oes esboniad a fydd/sut bydd Siapaneg/ieithoedd eraill y gweithwyr yn cael eu cynnwys. Yn y cyd-destun hwn, dylid cadw'r Gymraeg yr un mor weledol â'r Saesneg. Fodd bynnag, o ran diogelwch, cydnabyddir y byddai</p>	Adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019), sy'n nodi bod 'Arwyddion dros dro a pharhaol sy'n wynebu'r cyhoedd ar y Safleoedd sy'n ymwneud â Phrosiect DCO Wylfa Newydd yn ddwyieithog (ac eithrio lle mae diogelwch neu ystyriaethau perthnasol eraill yn mynnu bod arwyddion yn Saesneg yn unig).	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				hefyd yn dda sicrhau arwyddion amlieithog lle bo hynny'n briodol.			
	Mesur 8 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Datblygu a mabwysiadu fframwaith cymhwysedd ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg	FfIM 016	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<ol style="list-style-type: none"> Gweler y sylwadau perthnasol ar fesur lliniaru 2 (FfIM 010). Fframwaith Cymhwyseddau Sgiliau Cymraeg, yn ogystal ag Adnodd Asesu Sgiliau Cymraeg. Mae pryder yn parhau ynghylch diffyg arbenigedd i gefnogi Horizon i ddarparu hyn, gan nad oes gan y cwmni arbenigedd yn y maes hwn. Mae'n faes cymhleth o ran asesu cymhwysedd yn ogystal â darparu'r adnoddau dysgu yn y Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am gadarnhad ynglŷn â nifer y tiwtoriaid/staff fydd eu hangen yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg (darparwyr safonol dysgu Cymraeg yn yr ardal). 	Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn cytuno y bydd Horizon yn datblygu, mewn ymgynghoriad â CSYM a Llywodraeth Cymru, fframwaith cymhwysedd sgiliau Cymraeg ac offeryn asesu fel y sicrheir yn Atodlen 1 adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019), sy'n nodi y bydd y fframwaith a'r offeryn hwn yn: <ul style="list-style-type: none"> defnyddio Pecyn Cymorth Diagnostig Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg (sy'n cael ei gynhyrchu gan y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg); dilyn dogfen Strategaethau Sgiliau Iaith Gymraeg gweithle 5 lefel y Cyngor nodi rolau swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg a lefel y sgiliau neu amrywiaeth y lefelau sydd eu hangen; nodi'r rolau swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg lefel 3 neu uwch a fydd yn cynnwys [rolau sy'n wynebu'r cyhoedd, Swyddogion Cynnwys y Gymuned, a rolau mewnol diffiniedig fel aelodau staff y cafffi a'r tîm Adnoddau Dynol]; nodi amseriadau cyfnodol ar gyfer diweddariadau mewn ymgynghoriad â'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, a bydd y Datblygwyr wedyn yn gweithredu fframwaith cymhwysedd sgiliau Cymraeg ac offeryn asesu tan ddiwedd y Cyfnod Gweithredu (neu fel y bydd y Partïon yn cytuno fel arall). 	Ni chytunwyd ar hyn	
	Mesur 9 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Dosbarthu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg drwy'r broses recriwtio a'r gadwyn gyflenwi	FfIM 017	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<ol style="list-style-type: none"> Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu'r cynnig i arwain drwy gyfathrebu'r disgywiliad corfforaethol i barchu'r Gymraeg a'i diwylliant a fydd yn cael ei gynnwys yn y deunyddiau recriwtio. Fodd bynnag, mae angen llawer mwy o fanylion i droi'r cynnig hwn yn gamau lliniaru effeithiol. Mae angen cofio am dargedau'r ynys i gyrraedd 60.1% o siaradwyr Cymraeg erbyn 2021. Mae angen lliniaru a buddsoddi llawer mwy i gynnal a chefnogi cymunedau sy'n wynebu: gostyngiad o 17.2 pwynt canran yng ngogledd Ynys Môn, gostyngiad o 2.0 pwynt canran yng ngorllewin Ynys Môn, gostyngiad o 1.5 pwynt canran yn ne Ynys Môn, a gostyngiad o 0.5 pwynt canran ar y tir mawr ger y Fenai. 	Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn cytuno y bydd Horizon yn cyfleu ei ddisgywiliadau i ddangos cwrteisi ieithyddol yn ei brosesau a deunyddiau recriwtio. Bydd Horizon yn darparu gwybodaeth am Bolisi a rhwymedigaethau Horizon o ran y Gymraeg i'w gontractwyr yn adran 106 y DCO drafft [REP3-042] a rôl y contractwyr wrth ddarparu polisi a rhwymedigaethau o'r fath, gan gynnwys, er enghraifft, drwy eu prosesau recriwtio a chyfathrebu mewnol ac allanol. Bydd Horizon yn cynnwys gofynion gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod perthnasol â chontractwyr <ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth am gyflenwyr lleol, gan gynnwys y gronfa ddata fusnes sy'n cael ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM), awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru; ac 	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>3. Mae 'dosbarthu' yn weithred oddefol o ran y derbynnydd - nid yw'n bosibl sicrhau bod y deunydd yn cael ei ddarllen, ei ddeall nac ei dderbyn. Dylai'r cyfathrebu ddigwydd wyneb yn wyneb. Er mwyn bod yn deg â'r cymunedau lleol, dylid buddsoddi llawer mwy o ymdrech i sicrhau bod pob aelod o staff, gan gynnwys rhai isgontractwyr, yn cael awr o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith cyn dechrau ar y safle. Yna, dylid parhau i ddefnyddio cyflwyniadau staff yn rheolaidd i ddatblygu ymwybyddiaeth. Nid yw'n deg disgwyl i'r cymunedau ysgwyddo'r baich o gyfathrebu hyn, a gall diffyg dealltwriaeth arwain at wrthdaro yn ein cymunedau.</p> <p>4. Yn ogystal, er mwyn sicrhau effaith go iawn, yn hytrach na gorfodi, mae angen cynnig cefnogaeth i'r gweithlu yn y gymuned i fwynhau'r Gymraeg a'i diwylliant, er mwyn gweld a phrofi'r gwerth iddyn nhw'n bersonol. Dylid defnyddio darparwyr profiadol sy'n gallu trosglwyddo brwdfrydedd a chariad at yr iaith a'i diwylliant drwy gynnig cyfle i drafod a chwalu stereoteipiau.</p> <p>5. Ni nodir y raddfa, y cymhlethdod na'r buddsoddiad sy'n angenrheidiol mewn digwyddiadau i gyflawni hyn yn y camau lliniaru. Rydym yn gofyn am gadarnhad ynglŷn â lliniaru y tu hwnt i adran 106 y DCO, a llywodraethu unrhyw fuddsoddiad y tu hwnt i'r cytundeb hwnnw. Dylid ystyried yr effaith ar hunanhyder siaradwyr Cymraeg, a fydd yn wynebu dirywiad o 17.2% yn eu cymunedau, a dylid buddsoddi i liniaru'r golled yn y cymunedau hynny.</p> <p>6. Dylid hefyd sicrhau bod y gweithwyr "lleol" yn rhan o'r ymwybyddiaeth iaith, a bod y diffiniad o "lleol" yn cynnwys ardaloedd sydd hyd at 90 munud o amser teithio i ffwrdd, gan gynnwys ardaloedd nad ydynt yn gadarnleoedd i'r Gymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> unrhyw ddeunydd arall y cytunir arno rhwng y Datblygwr a CSYM. <p>Fel rhan o'r broses ymsefydlu ar gyfer y Gweithlu sy'n gweithredu ar y Safle, bydd Horizon yn darparu'r deunyddiau Cymraeg a ganlyn i'r Gweithlu sy'n mynd i sesiynau cynefino â'r safle o'r fath:</p> <p>Pecynnau briffio Cymraeg a/neu ddeunyddiau cynefino; y llyfryn "Byw mewn gwlad ddwyieithog" a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 2017;</p> <ul style="list-style-type: none"> unrhyw ddeunydd arall y cytunir arno rhwng Horizon a'r Cyngor. Pwrpas yr wybodaeth a ddarperir i gontractwyr a'r Gweithlu o dan Baragraffau [3.1 adran 106 y DCO drafft] a [3.2 adran y 106 DCO drafft] fydd codi ymwybyddiaeth a pharch at y Gymraeg a'i diwylliant, a Siarad Cymraeg ymhlith y contractwyr a'r Gweithlu. Bydd Horizon yn cynnwys gofynion gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod perthnasol â chontractwyr. 		
	<p>Mesur 10 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried mewn prosesau caffael</p>	FfIM 018	<p>Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)</p>	<p>1. Mae geiriad y mesur lliniaru hwn yn rhy amwys: 'Gwybodaeth am yr iaith Gymraeg fel eitem agenda' - i gyflawni beth? A 'darparu gwybodaeth', sy'n weithred oddefol heb esboniad o sut bydd Horizon yn sicrhau cydymffurfiaeth.</p> <p>2. Gweler sylwadau Fforwm Iaith Môn ar fesur 6 (FfIM 014) ar gyfer blaenoriaethu'r Gymraeg yn y Cod Ymddygiad a chryfhau'r Polisi Iaith, a derbyn arweiniad gan arweinwyr arbenigol fel Comisiynydd y Gymraeg i ddiogelu hawliau iaith y gweithwyr yn ogystal â lliniaru effaith y datblygiad ar y gymuned.</p>	<p>O ran contractwyr, mae adran 106 y DCO drafft, (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM Môn ar 23 Ionawr 2019) yn nodi ymhellach, cyn i gontractwyr ddechrau gwaith ar safleoedd, bydd Horizon yn darparu'r canlynol i'w gontractwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> gwybodaeth am Bolisi a rhwymedigaethau Horizon o ran y Gymraeg yn [Error! Reference source not found.] a rôl y contractwyr wrth ddarparu polisi a rhwymedigaethau o'r fath, gan gynnwys, er enghraifft, drwy eu prosesau recriwtio a chyfathrebu mewnol ac allanol; 	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>3. Mae Fforwm Iaith Môn yn disgwyl cadarnhad y bydd Horizon yn rhwymo isgontractwyr Haen 1, a rhai Haen 2 a 3 o ganlyniad, i'r Polisi Iaith drwy'r cytundeb darparu gwasanaethau.</p> <p>4. Dylai isgontractwyr ddilyn polisi iaith Horizon o ran recriwtio, gweithdrefnau, delio â staff, delio â chynghorau cymuned a phartneriaid lleol, a delio â'r gymuned.</p> <p>5. Mae angen eglurder ynglŷn â rôl y Swyddog Iaith, y Grŵp Monitro lefel uwch, CSYM a grwpiau lliniaru - mesurau 21 - 24 (FfIM 029 - FfIM 032).</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth am gyflenwyr lleol, gan gynnwys y gronfa ddata fusnes sy'n cael ei datblygu gan CSYM, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru; ac unrhyw ddeunydd arall y cytunir arno rhwng y Datblygwr a'r Cyngor. <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi, fel rhan o'r broses ymsefydlu ar gyfer y Gweithlu sy'n gweithredu ar y Safle, bydd Horizon yn darparu'r deunyddiau Cymraeg a ganlyn i'r Gweithlu sy'n mynd i sesiynau cynefino â'r safle o'r fath i godi ymwybyddiaeth a pharch at y Gymraeg a'i diwylliant, a siarad Cymraeg ymhlith y contractwyr a'r Gweithlu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Pecynnau briffio Cymraeg a/neu ddeunyddiau cynefino; y llyfryn "Byw mewn gwlad ddwyieithog" a gynhyrwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 2017; unrhyw ddeunydd arall y cytunir arno rhwng y Datblygwr a'r Cyngor. <p>Er mwyn hwyluso a chyflawni'r gwaith o weithredu'r rhwymedigaethau uchod, bydd Horizon yn cynnwys gofynion gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod perthnasol â chontractwyr.</p>		
	<p>Mesur 11 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Sicrhau bod gwybodaeth am gontractwyr lleol yn cael ei dosbarthu drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan</p>	FfIM 019	<p>Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)</p>	<p>1. Mae angen llawer mwy o eglurder, oherwydd nad yw 'gwybodaeth' ac 'annog' yn ymrwymiadau digon cadarn ar ffurf cytundebau. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos fel gweithred oddefol o annog defnyddio cwmnïau sydd ar gronfa ddata sy'n cael ei datblygu gan eraill. Nid yw Fforwm Iaith Môn yn gweld unrhyw dystiolaeth o fwriad Horizon i weithio'n fwy rhagweithiol. Ond eto, dyma un o'r materion pwysicaf i gwmnïau bychan yn ein cymunedau Cymraeg eu hiaith, fel yr oedd cynrychiolydd Ffederasiwn Busnesau Bach yn ei ddangos drwy Unllais, oherwydd bod nifer o gontractwyr bychan wedi colli gweithwyr yr oeddent wedi'u hyfforddi ar gyfer yr orsaf bŵer bresennol oherwydd cyflogau.</p> <p>2. Er mwyn sicrhau budd yn lleol, mae'n ddyletswydd ar ddatblygwr mawr fel Horizon i wneud llawer mwy na rhannu cronfa ddata. Mae angen buddsoddi mewn digwyddiadau cysylltu a chysylltiadau sy'n rhwymo rhwng Contractwyr lleol a rheolwyr ac isgontractwyr. Er mwyn paratoi ar gyfer staffio, dylai Horizon drefnu i ymweld â safleoedd, rhannu cynlluniau technegol a'r amrywiol gyfleoedd isgontractio ymlaen llaw er mwyn sicrhau mantais i gontractwyr lleol allu paratoi mewn da bryd ar gyfer</p>	<p>Mae Atodlen 4 adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cynnwys sawl cam rhagweithiol y bydd Horizon yn eu cymryd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfraniad Blynyddol at Swyddog Datblygu Economaidd; Cronfa sgiliau; Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd; Safle Porthol y Gadwyn Gyflenwi Cynllun Gweithredu'r Gadwyn Gyflenwi Cynllun Gweithredu Swyddi a Sgiliau. <p>Bydd Cynllun Gweithredu'r Gadwyn Gyflenwi a'r Cynllun Gweithredu Swyddi a Sgiliau yn cael eu datblygu gyda CSYM a Llywodraeth Cymru, ac ar y cam hwnnw bydd modd cytuno ar ragor o fanylion er mwyn sicrhau bod contractwyr lleol yn gallu elwa o fanteision Prosiect Wylfa Newydd.</p> <p>Mae'r gronfa ddata fusnes yn cael ei datblygu gan CSYM, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.</p>	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>y cyfleoedd. Dylid rhoi gwybod am gyfleoedd ehangach hefyd, fel darparu gwasanaethau bysiau a bwyd, gan bwysleisio'r fantais sydd gan gwmnïau a chanddynt weithwyr dwyieithog. Dylid ymgynghori'n lleol ynghylch argaeledd a dylid torri'r gwaith yn gontractau llai er mwyn cynnwys rhagor o fusnesau lleol. Wrth asesu tendrau, dylid cydnabod y gwerth ychwanegol y gall cwmni lleol ei gynnig o ran lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, cyfrannu mwy at yr economi leol, gweithredu'n unol â'r gymuned, ac wrth gwrs, cyfathrebu'n ddwyieithog â'r gymuned leol. Mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am gynllun ysgrifenedig sy'n dangos bwriad Horizon i fod yn rhagweithiol o ran cynnwys darparwyr lleol, gan gynnwys amserlen i sicrhau y gall busnesau lleol baratoi er mwyn cyflwyno ceisiadau mewn da bryd.</p> <p>3. Nid yw Fforwm Iaith Môn yn gyfarwydd â Menter Newydd.</p> <p>4. Mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am ragor o fanylion am y Gronfa Ddata Fusnes.</p> <p>5. Yn hyn oll, mae Fforwm Iaith Môn yn ceisio cael ymrwymiad cadarn i sicrhau manteision i gwmnïau sy'n cyflogi siaradwyr Cymraeg a chwmnïau sy'n cynnal ein cymunedau lleol Cymraeg eu hiaith.</p>			
	<p>Mesur 12 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Datblygu rhaglen hyfforddiant sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg, annog pobl i fanteisio ar yr hyfforddiant a sefydlu rhaglen fentora</p>	FfIM 020	<p>Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)</p>	<p>1. Mae'r mesur hwn yn ymddangos fel cyfres o ddatganiadau ar ffurf dymuniadau, heb strategaeth na strwythur, sy'n awgrymu nad ydy Horizon yn llawn ddeall effaith y datblygiad ar yr iaith Gymraeg ar Ynys Môn, effaith hyd at 9000 o weithwyr ar darged yr ynys o gyrraedd 60.1% o siaradwyr Cymraeg, a'r buddsoddiad sydd eisoes wedi cael ei wneud ar yr Ynys i wireddu amcanion Cymraeg 2050 y Llywodraeth a Strategaeth Iaith CSYM. Yn benodol, rydym yn tynnu sylw at eiriau amwys sy'n cael eu defnyddio fel "gofyn" "pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd" "annog".</p> <p>2. I liniaru effaith hyd at 9000 o weithwyr ar yr Ynys, safbwynt Fforwm Iaith Môn ar Ymwybyddiaeth Iaith yw y dylai fod yn orfodol ar gyfer pob aelod o staff a'u teuluoedd. O leiaf awr o hyfforddiant gan ddarparwyr lleol profiadol sy'n gallu trosglwyddo'r brwdfrydedd a chwalu unrhyw stereoteipiau. Mae angen buddsoddi mewn pecynnau o ddigwyddiadau cymunedol/anffurfiol/darparu er mwyn ychwanegu gwerth at hyn. Mae Menter Iaith Môn mewn sefyllfa i gynnig ymwybyddiaeth iaith</p>	<p>Mae adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y bydd Horizon yn sefydlu Polisi Iaith Gymraeg o'r cychwyn cyntaf hyd at ddiwedd y Cyfnod Gweithredu ac y bydd y polisi hwnnw'n cynnwys ac yn mynnu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r Gweithlu. Aelodau o staff i ddangos cwртеisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o'r Polisi Iaith Gymraeg. Datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer staff y Gweithlu gweithredu pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd (fel y pennir gan y fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg a sefydlwyd yn unol â Pharagraff [Error! Reference source not found.]). Sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Cynnal cynllun bathodyn siaradwyr Cymraeg y Datblygwyr ac ymdrechu'n rhesymol i sicrhau bod ei gontractwyr yn defnyddio cynllun cyfatebol. 	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>gyda buddsoddiad ariannol gan Horizon yn gymhorthdal am amser staff a phartneriaid y Fforwm a fydd ar gael i gyflwyno digwyddiadau sy'n ddifyr ac sy'n cymell ar gyfer teuluoedd gweithwyr.</p> <p>3. Cais i ddangos cwртеisi. Mae Fforwm Iaith Môn o'r farn bod hwn yn ddymuniad afrealistig heb fuddsoddiad mewn ymwybyddiaeth iaith, gweithgareddau Cymraeg a'r cynnig i ddysgu Cymraeg i bawb. Mae Fforwm Iaith Môn felly'n gofyn am gael gweld Cynllun y Strategaeth Hyfforddiant. Rhaid cael manylion o ran sut bydd Horizon yn cyflawni hyn a disgwylir gweld y datblygwyr yn gweithio gyda CSYM i fabwysiadu gallu iaith Cymraeg Lefelau 1-5, ac yn ymgynghori â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i ddod o hyd i becynnau addas a chynllunio'r capasiti er mwyn cynnig y Gymraeg yn y gweithle.</p> <p>4. Amserlen – bydd angen i ddarparwyr addasu eu strategaethau a threfnu capasiti o ran Ymwybyddiaeth iaith, Digwyddiadau, Dysgu Cymraeg, ymlaen llaw Felly mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am amserlen sy'n dangos y nifer a ddisgwylir a phryd bydd y galw. Hefyd, mae angen gosod y data yng nghyd-destun adroddiadau blynyddol Partneriaid y Fforwm i'r llywodraeth, sy'n ceisio mesur cyflawniad a llwyddiant eu gwaith a'u buddsoddiad yng nghyd-destun Targedau Cymraeg 2050 a'r cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ar yr ynys.</p> <p>5. Mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am eglurder gan nad yw Fforwm Iaith Môn yn gyfarwydd â sut bydd Horizon yn defnyddio'r data. Yn yr un modd, mae'r dulliau o fonitro'r cynnydd mewn sgiliau iaith Gymraeg yn ansicr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu'r polisi bob blwyddyn. <p>Mae adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) hefyd yn nodi y bydd data ar sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Ymgysylltu'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant bob blwyddyn.</p> <p>Mae gwybodaeth am amserlen y gweithwyr wedi'i nodi yn (Pennod C1 y Datganiad Amgylcheddol [APP-088]).</p>		
	<p>Mesur 13 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Casglu a rhannu data am anghenion teuluoedd</p>	FfIM 021	<p>Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)</p>	<p>1. Mae pryder o hyd ynghylch methodoleg Horizon ac amseru rhyddhau gwybodaeth.</p> <p>2. Rhifau a Methodoleg: Mae Fforwm Iaith Môn yn nodi'r anghysondeb yn y rhifau; mae Horizon yn amcangyfrif 220 ac mae CSYM yn asesu y bydd y niferoedd dros 500. Mae'r ffigurau uwch yn dod o asesiadau dau ymgynghorydd a ddaeth i'r casgliad hwn yn annibynnol ar ei gilydd bod y nifer a ddisgwylid dros ddwbl y 220 a awgrymwyd gan Horizon. O ganlyniad, mae Fforwm Iaith Môn yn</p>	<p>Mae'r tybiaethau sy'n ymwneud â nifer y plant oed ysgol y disgwylir iddyn nhw symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu yn seiliedig ar y tybiaethau sy'n deillio o'r asesiad economaidd-gymdeithasol (Pennod C1 y Datganiad Amgylcheddol – [APP-088]).</p> <p>Mae cytundeb adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y</p>	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
	gweithwyr sy'n symud i'r ardal			<p>disgwyl mwy o eglurder ynghylch methodoleg Horizon i egluro'r gwahaniaeth, oherwydd drwy danamcangyfrif y niferoedd, bydd baich a chostau i wasanaethau cyhoeddus, i'r gymuned ac i'r iaith Gymraeg.</p> <p>3. Hefyd, ni all Fforwm Iaith Môn weld cyfeiriad at effeithiau cronnus y datblygiad ar niferoedd eraill o weithwyr a ddaw i'r Ynys, ynghyd â'u partneriaid a'u plant. Mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am ragor o wybodaeth. Yn uniongyrchol gysylltiedig â'r amserlen ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd, mae disgwyl 400 o weithwyr National Grid, a nifer o weithwyr i godi pont newydd i hwyluso teithio i Wylfa Newydd.</p> <p>4. Amseru: A chofio bod y gymuned yn ymddiried yn Horizon i adeiladu un o'r adeiladau mwyaf, gyda'r dechnoleg fwyaf cymhleth yn Ewrop, disgwylir bod y cwmni yn gallu rhoi amcangyfrif cywir o'r niferoedd ymlaen llaw a rhyddhau gwybodaeth yn ddienw ymhell ymlaen llaw er mwyn i bartneriaid Fforwm Iaith Môn allu blaengynllunio. Caiff Fforwm Iaith Môn ar ddeall gan bartneriaid y bydd yn rhaid i'r niferoedd gael eu cadarnhau erbyn 2019 felly rydym yn gofyn am gadarnhad o hyn yn yr amserlen. Mae'r ymateb i'r brys hwn yn rhan hanfodol o wireddu mesurau lliniaru effeithiol.</p> <p>5. I gyd-fynd â'r asesiad o'r niferoedd o deuluoedd, plant, oed, byddai Fforwm Iaith Môn yn dymuno gweld amserlen ar gyfer cwblhau'r llety i weithwyr er mwyn gweld faint o weithwyr heb lety fydd mewn cymunedau.</p> <p>6. Mae hi'n hollbwysig rhannu'r wybodaeth hon â'r partïon perthnasol er mwyn ymateb yn amserol i leihau effeithiau niweidiol. Mae'r effaith ar y blynyddoedd cynnar yn peri pryder i'r Mudiad Meithrin sy'n arwain darpariaeth Gymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol ar yr ynys. Mae pryder yn dal i fodoli ynghylch diffyg profion o'r fethodoleg a ddefnyddir i benderfynu ar nifer y plant y rhagwelir sy'n debygol o symud i'r ardal. Mae Fforwm Iaith Môn yn credu nad oes digon o ddata wedi cael ei ddarparu er mwyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol allu cynllunio'r ddarpariaeth.</p> <p>Mae Fforwm Iaith Môn yn gwybod o ddogfennau cyhoeddus yr Arolygiaeth Gynllunio bod CSYM wedi comisiynu dau ymchwiliad annibynnol sy'n</p>	<p>bydd data yn cael ei rannu â'r is-grŵp Iaith Gymraeg a'i Diwylliant bob chwarter.</p> <p>Mae'r effeithiau cronnus yn cael eu hasesu yng nghyfrol H yr AEIG [APP-432].</p> <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a gafodd ei rhannu â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cynnwys dyletswydd i ddarparu Cyfraniad (Blynyddol) at Addysg Gymraeg yn ogystal â Chronfa Addysg Gymraeg (Wrth Gefn). Mae'n cynnwys manylion ynghylch sut bydd taliadau o'r Cyfraniad (Blynyddol) at Addysg Gymraeg yn cael eu strwythuro a'r egwyddorion ar gyfer sbarduno'r Gronfa Addysg Gymraeg (Wrth Gefn). Fel rhan o'r egwyddorion hyn, mae'n cynnwys dyletswyddau i Horizon a CSYM fonitro nifer y dibynyddion sydd gan y gweithlu.</p> <p>Mae adran 106 y DCO drafft (a gafodd ei rhannu â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y bydd yr wybodaeth a gesglir yn cynnwys (pan fydd hynny ar gael ac yn amodol bob tro ar gydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data) sgiliau Iaith Gymraeg partneriaid a phlant o'r fath, a nifer y plant a'u hoed.</p> <p>Mae'r AEIG [APP-432] yn cynnwys dibynyddion (partneriaid a phlant) fel rhan o'r asesiad o'r effeithiau.</p> <p>O ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar, mae Atodlen 6 adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y caiff CSYM ddefnyddio'r Gronfa Addysg (Wrth Gefn) ar gyfer darpariaeth cyn ysgol.</p>		

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>dyblu nifer y dibynyddion a ddisgwylir – plant a phobl ifanc.</p> <p>7. Mae pryder yn dal i fodoli ynghylch y diffyg amserlen ar gyfer rhannu'r data hwn ag Awdurdodau Lleol a chyrrff perthnasol eraill fel Mudiad Meithrin. Os na chaiff y data hwn ei rannu nes bod y gweithwyr a'u teuluoedd wedi cyrraedd neu'n fuan cyn hynny, bydd hi'n rhy hwyr o lawer i gynllunio'r ddarpariaeth.</p> <p>8. Nid yw'n rhoi digon o amser i deuluoedd gael gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau cadarnhaol ynghylch gofal ac addysg iaith Gymraeg ar gyfer eu plant. Ni fyddent yn cael gwybodaeth am y darpariaethau amrywiol sydd ar gael i'w cefnogi i ddysgu ac i ddefnyddio'r Gymraeg fel teulu.</p> <p>9. Mae angen rhagor o fanylion ynghylch y data ee oed y plant, eu lleoliad, eu sgiliau iaith.</p> <p>10. Rhaid ystyried capasiti'r Mudiad Meithrin i gynnig lleoedd i'r plant. Mae'n bosibl y bydd angen cyflogi rhagor o staff mewn rhai Cylchoedd penodol.</p> <p>11. Mae cymhareb y plant i'r staff yn eithriadol o bwysig (1 i 4 gyda phlant dwy oed ac 1 i 8 gyda phlant tair oed) ac mae'n rhaid sicrhau hyn bob amser.</p> <p>12. Plant oed ysgol – mae Fforwm Iaith Môn yn cyfeirio at hyn yn FfIM 024.</p> <p>13. Oedolion sy'n chwilio am waith – ni all Fforwm Iaith Môn weld unrhyw asesiad o'r niferoedd ac effaith partneriaid yn chwilio am waith yn lleol ar y farchnad lafur ac ar yr iaith Gymraeg.</p> <p>14. Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu'r ffaith bod hyn yn rhan o adran 106 DCO, ond mae angen rhagor o fanylion am y fethodoleg, blaengynllunio gydag amcangyfrifon yn cyrraedd y gwasanaethau cyhoeddus erbyn 2019, a chronfa wrth gefn i ddefnyddio darparwyr anstatudol i helpu gyda'r mesurau lliniaru.</p>			

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
Mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd	Mesur 14 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Datblygu adnoddau addysgol ar gyfer dysgwyr mewn addysg gynradd, uwchradd ac Addysg Bellach	FfIM 022	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<ol style="list-style-type: none"> Nid yw'n eglur beth yw 'parhau' a 'chefnogaeth addysgol'. Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu'r cyfle i ddarparu addysg am y diwydiant a gwyddoniaeth yn yr ystafell ddogfen, gan atgoffa'r datblygwyr mai ffin denau iawn sy'n bodoli weithiau rhwng cynnig cefnogaeth addysgol fel rhan o gysylltiadau cyhoeddus meddal a chynnig addysg gytbwys ar bob dull o gynhyrchu ynni yn unol â disgwyliadau addysgol Llywodraeth Cymru. Er mwyn gwella'r ddarpariaeth a oedd gan Wylfa'n flaenorol, mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn i'r holl ddarparwyr fod yn gwbl ddyieithog er mwyn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig os mai dyma gyfrwng yr ysgol ar gyfer dysgu gwyddoniaeth. Mae mwy a mwy o alw ar ysgolion i ddarparu pynciau STEM a drwy sicrhau athrawon dwyieithog, bydd hyn yn gyfle i ragor o ymgeiswyr lleol ymuno â'r tîm a chyfrannu at greu carfan gynyddol o wyddonwyr sy'n gallu delio â'u gwaith yn ddwyieithog. Mae rhagor o sylwadau ar gael o dan FfIM 024. 	<p>Mae Atodlen 6 adran 106 y DCO Drafft (a gafodd ei rhannu â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cynnwys Cyfraniad at Addysg y bydd CSYM yn ei ddefnyddio i wella capasiti cynnar mewn Ysgolion Lleol yn Ynys Môn a gwella'r capasiti o fewn amserlenni priodol er mwyn osgoi effeithiau oherwydd bod Plant y Gweithlu yn mynychu ysgolion o'r fath, a bydd gwella'r capasiti yn debygol o gynnwys.</p> <p>Mae Atodlen 6 adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) hefyd yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu strategaeth addysg sy'n cadarnhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltiad Horizon â'r pum ysgol uwchradd a'r 47 ysgol gynradd ar Ynys Môn yn ogystal â'r rhanbarth ehangach. Ymgysylltiad Horizon a'i Gontractwr Haen 1 gyda'r Prosiect STEM y Gogledd. Yr 'Wythnos Cypolwg ar Waith' a ddarperir gan Horizon ar hyn o bryd, neu gynllun cyfatebol, ar gyfer pobl ifanc (rhaglen wythnos o hyd wedi'i theilwra ar gyfer myfyrwyr Blynnyddoedd 11, 12 ac 13 o ysgolion yn Ynys Môn, Gwynedd a Choleg Menai sy'n rhoi cipolwg i fyfyrwyr o'r Prosiect Wylfa Newydd a'i gyfleoedd i bobl ifanc). 	Ni chytunwyd ar hyn	
	Mesur 15 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Cynnal cynllun prentisiaethau'r Prosiect a'r wythnos Cypolwg ar Waith	FfIM 023	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<ol style="list-style-type: none"> "Ehangu darpariaeth addysg bellach ac uwch drwy'r Gymraeg a chynnig cyfleoedd i ddilyn prentisiaethau Cymraeg." (tudalen 56, 2017)⁹ mae hyn yn ganolog i Thema 1, Strategaeth Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru. Caiff ei groesawu gan y Fforwm gan ei fod yn gallu bod yn symbyliad cryf ar gyfer gyrfa, a drwy dargedu'n lleol a phwysleisio manteision sgiliau dwyieithog, bydd Horizon yn meithrin ac yn datblygu arweinwyr dwyieithog yn y diwydiant. <p>Er mwyn gwireddu'r potensial, mae'r Fforwm yn gofyn am gadarnhad ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y niferoedd blynnyddol. - ymrwymiad i sicrhau bod y prentisiaid yn dod o Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy yn unig a bod y Gymraeg yn cael ei chydabod fel sgil bwysig wrth wneud cais am brentisiaethau 	<p>Mae Atodlen 4 adran 106 y DCO Drafft (a gafodd ei rhannu â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y bydd Horizon yn ymestyn ei Gynllun Prentisiaeth Dechnegol Prosiect DCO Wylfa Newydd drwy gydol y Cyfnod Adeiladu gyda'r nod o dargedu bod 20% o weithlu gweithredol y safle yn raddedigion o Gynllun Prentisiaeth Dechnegol Prosiect DCO Wylfa Newydd.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r prentisiaid presennol yn siaradwyr Cymraeg.</p>	Ni chytunwyd ar hyn	

⁹ <https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf>

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>- bydd y broses recriwtio a'r holl adnoddau ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys cyfle i gael cyfweliad yn Gymraeg.</p> <p>- bydd y profiad prentisiaeth hefyd yn cynnwys cyfle i'r rheini nad ydyn nhw wedi gweld dwyieithrwydd ar waith mewn gweithle gael eu trochi yn y Gymraeg.</p> <p>Mae cynllun GwE 'Datblygu'r Gweithle i Gefnogi'r Gymraeg mewn Addysg' yn nodi:</p> <p>'Rydym yn cydnabod na all 'addysg' ar ei phen ei hun greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Rydym yn ymwybodol iawn bod angen cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sawl cyd-destun er mwyn cyfoethogi eu dysgu a'u hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith bob dydd... un nod sydd gennym ydy sicrhau bod ein disgyblion yn cydnabod cyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg y tu hwnt i' r ystafell ddosbarth mewn gweithleoedd' Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.</p> <p>Mae Estyn yn dangos yn y cyhoeddiad 'Alinio'r Model Prentisiaeth ag Anghenion Economi Cymru' mai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Prentisiaid 2016-22 yw cryfhau'r cyfleoedd i ddilyn prentisiaethau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, a thrwy hynny sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cynnal a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.</p> <p>Mae hyn oll yn cefnogi'r cyfle i Horizon fod yn arloesol yn ei ymrwymiad i'r iaith Gymraeg.</p>			
	Mesur 16 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Cefnogi'r gwasanaeth trochi iaith	FfIM 024	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<ol style="list-style-type: none"> O ran maint, ni allwn orbwysleisio i ba raddau rydym yn anghytuno â pha mor annigonol fydd y cam hwn i liniaru effaith y datblygiad ar yr iaith Gymraeg mewn addysg. Y bwriad yw lliniaru rhywbeth sy'n mynd i waethygu – ac mae'r her yn un anferthol sef lliniaru effaith gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg i lai na 50%. Nid yw ateb Horizon yn mynd i'r afael â'r her hon a theimlir bod hyn yn adlewyrchu diffyg ymrwymiad, amharodrwydd i fuddsoddi mewn modd sy'n cyfateb i faint y datblygiad, neu ddiffyg dealltwriaeth o gynllunio ieithyddol. Niferoedd - gweler pwynt 6 yn FfIM 021 lle rydym yn gofyn i Horizon am y fethodoleg sydd wedi dod i gasgliad tra gwahanol i asesiad dau ymgynghorydd annibynnol ar ran CSYM. Oherwydd bydd safonau addysgol a'r defnydd o'r Gymraeg yn gwaethygu, mae gwybod y nifer cywir yn hanfodol er mwyn 	<p>Mae CSYM wedi nodi na ddylai'r gymhareb athro-disgybl mewn darpariaeth drochi fod yn uwch na 16:1 (Paragraff 3.4.7 o REP2-100 Cyngor Sir Ynys Môn Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyno 2 - Adroddiad ar yr Effaith Leol - Atodiad 1Q). Mae'r gymhareb disgybl i athro hon yn seiliedig ar ddau gyfnod o dderbyn 8 disgybl fesul athro trochi y flwyddyn.</p> <p>Mae paragraff 7.3.4 o Bennod 7 Adroddiad ar yr Effaith Leol CSYM [REP2-067] yn cynnwys rhagolygon CSYM ar gyfer nifer plant y gweithlu bob blwyddyn a nifer plant y gweithlu y rhagwelir fydd yn defnyddio darpariaeth drochi ('achosion trochi') bob blwyddyn. Mae CSYM yn rhagweld y bydd 8 o blant y gweithlu'n mynd i ddarpariaeth drochi ym mlwyddyn gyntaf ac ail Prosiect DCO Wylfa Newydd.</p> <p>Mae asesiad Horizon yn rhagweld y bydd 220 o blant y gweithlu'n symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu. Mae Horizon yn anghytuno ag asesiad CSYM y</p>	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>lliniaru'r effeithiau ar ysgolion. Mae'n rhesymol i ni dderbyn asesiad CSYM o'r niferoedd ac ystyried arbenigedd CSYM a'r asesiad gan ddau arbenigwr a ddaeth i gasgliadau annibynnol a oedd yn rhoi niferoedd tebyg sydd yn fwy na dwbl y niferoedd a roddwyd gan Horizon.</p> <p>3. Niferoedd athrawon – yn unfrydol, mae holl aelodau'r Fforwm wedi datgan bod cynnig 2 athro, ac 1 yng Ngwynedd yn gynnig sarhaus o isel er mwyn lliniaru yn erbyn effaith y datblygiad ar addysg yn Ynys Môn. Wrth ystyried hyd a lled ein profiad ar y Fforwm, yn cefnogi teuluoedd, cymunedau ac ysgolion, ac wrth gofio bod GwE, arbenigwyr addysg ar ran y Llywodraeth yng ngogledd Cymru hefyd yn aelodau o Fforwm Iaith Môn - dylid edrych o ddifri ar ddiffyg parodrwydd Horizon i fynd i'r afael ag effaith y datblygiad ar addysg ac ar y Gymraeg ar gyfer plant.</p> <p>4. Yn unfrydol roedd Fforwm Iaith Môn yn cefnogi asesiad CSYM ynghylch darparu 12 aelod o staff i liniaru'r effaith ac nid ydym yn credu bod gan Horizon unrhyw sail dros wrthwynebu hyn, ac ystyried dealltwriaeth a phrofiad CSYM a'r asesiadau annibynnol a phroffesiynol, wrth gymharu hynny â diffyg dealltwriaeth a phrofiad Horizon a'r diffyg tystiolaeth o fuddsoddiad mewn ymgynghorwyr cynllunio addysg ac iaith. Dros y blynyddoedd mae CSYM wedi cynghori Horizon am y diffygion yn eu hamcanion lliniaru ar y mater hwn, ac rydym wedi gweld hyn yn Fforwm Iaith y sir, felly mae hi'n siomedig nad ydy Horizon wedi derbyn arbenigedd y partïon sydd â diddordeb a'r awdurdod lleol. Ni fydd hi'n bosibl cytuno ar hyn oni bai fod y datblygwyr yn derbyn cais CSYM yn llawn.</p> <p>5. Hefyd, mae cymhareb yr athrawon trochi i blant (1 i 8) yn hanfodol gan fod y dull hwn wedi bod mor llwyddiannus dros y blynyddoedd, ac roedd holl aelodau'r Fforwm yn atgyfnerthu hyn o'u profiad proffesiynol o ddelio â'r unedau iaith a'r plant sydd wedi cael budd o'r ddarpariaeth. Dyma'r drefn ar draws yr ynys cyn i Horizon gyrraedd, felly nid ydym yn fodlon derbyn gostyngiad yn y safonau yn dilyn gostyngiad yn y gymhareb athro/plant o ganlyniad i'r datblygiad. Rydym yn nodi felly, petai angen y gwasanaeth ar ragor o blant, y dylai Horizon ymrwymo i gyflogi rhagor o athrawon i ddiwallu'r galw yn ddi-oed.</p> <p>6. Bydd angen rhyddhau arian ymlaen llaw yn 2019 er mwyn sicrhau bod digon o flynyddoedd i hyfforddi'r</p>	<p>bydd 505 o blant y gweithlu'n symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu.</p> <p>Mae Horizon wedi defnyddio proffil tybiedig CSYM o ran dibynyddion y gweithlu (o Baragraff 7.3.4 Pennod 7 Adroddiad ar yr Effaith Leol CSYM [REP2-067]), ac wedi cymhwysu hyn i uchafswm tybiedig o 220 o ddibynyddion y gweithlu (gan ddefnyddio cymhareb o 220/505 i addasu nifer CSYM o blant y gweithlu ac achosion trochi) i amcangyfrif nifer dibynyddion y gweithlu a fydd yn defnyddio darpariaeth drochi bob blwyddyn.</p> <p>Drwy gymhwysu'r gymhareb 16:1 o ran disgyblion ac athro i'r nifer blynyddol o ddibynyddion y gweithlu yr amcangyfrifir fydd yn defnyddio darpariaeth drochi, mae Horizon wedi rhagweld y cyfraniad ariannu fydd yn ofynnol i ddarparu'r ddarpariaeth drochi i blant y gweithlu ar gymhareb disgybl-athro o 16:1. Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cynnwys rhwymedigaeth i ddarparu Cyfraniad (Blynyddol) at Addysg Gymraeg sy'n cyfateb i'r swm hwn.</p> <p>Mae adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) hefyd yn cynnwys Cronfa Addysg Gymraeg (Wrth Gefn) y gellir ei defnyddio os bydd y gymhareb disgybl-athro yn mynd y tu hwnt i 16:1.</p> <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cynnwys manylion am sut dylid strwythuro taliadau o'r Cyfraniad (Blynyddol) at Addysg Gymraeg, a'r egwyddorion ar gyfer sbarduno'r Gronfa Addysg Gymraeg (Wrth Gefn). Fel rhan o'r egwyddorion hyn, mae'n cynnwys dyletswyddau i Horizon a CSYM fonitro nifer y dibynyddion sydd gan y gweithlu.</p>		

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>athrawon arbenigol hyn i fod yn barod i dderbyn y plant i'r gwasanaeth trochi. Mae'n hanfodol nad oes oedi rhwng yr adeg y bydd y plant yn cyrraedd yr ardal a phan fyddan nhw'n mynd i'r ddarpariaeth drochi. Ar ôl i'r plant ddod i'r arfer o siarad Saesneg yn yr ysgol, mae'n gallu bod yn anodd iawn a bydd angen rhagor o adnoddau i newid eu harferion iaith.</p> <p>"Mae'r rhan fwyaf o athrawon trochi wedi ymrwymo'n llwyr i addysg ddwyieithog, yn frwdfrydig ynghylch dwyieithrwydd mewn cymdeithas, yn gweithio fel cenhadon iaith. Mewn ysgol ddwyieithog lwyddiannus, gall brwdfrydedd ac ymrwymiad o'r fath fod yn ffactor pwysig sy'n aml yn cael ei danbriso wrth fesur llwyddiant. Mae'n bosibl dibrisio ymrwymiad athrawon dwyieithog, a'r sgiliau arbenigol mae athro dwyieithog yn eu defnyddio y tu hwnt i'r rheini a ddefnyddir gan athro unieithog, wrth feddwl am ysgolion dwyieithog llwyddiannus." (tudalen.178, 2014)¹⁰</p> <p>7. Bydd dyfodiad plant heb allu yn y Gymraeg i ysgolion lleol yn dylanwadu ar yr iaith yn yr ystafell ddosbarth, ar iard yr ysgol, mewn clybiau cymdeithasol lleol ac ymhellach i ffwrdd yn y gymuned. Ar gyfer plant o gefndiroedd di-Gymraeg bydd angen darparu cyfleoedd trochi allgyrsiol parhaus i'r disgyblion wedi iddynt adael yr unedau iaith Mae hyn yn wasanaeth a gynigir eisoes ee gan yr Urdd, Menter Iaith Môn a Chlybiau Ffermwyr Ifanc a bydd gofyn am gynyddu cefnogaeth ariannol i'r rhain i gynyddu capasiti staff wrth gynyddu amllder ac ymestyn lleoliadau ar egwyddor agosrwydd, os ydym am liniaru effaith ar Gymraeg y plant yn y gweithgareddau cymunedol y tu allan i oriau ysgol.</p> <p>"The Irish and Welsh immersion experiences tend to suggest that most children whose home language is English will cope successfully in minority language immersion classrooms. For such children, the language context is additive rather than subtractive. The danger is that the majority language of English, being the common denominator, will be the language used between pupils in the classroom, in the playground and certainly out of school. A balance towards a greater proportion of language minority speakers may help to ensure that the 'common denominator' majority language does not always dominate in informal</p>			

¹⁰ A Parents' and teachers' Guide to Bilingualism, Colin Baker 2014

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>classroom and playground talk." (tudalen 179, 2014)¹¹</p> <p>8. Yn yr un modd â FfIM 021 - mae Fforwm Iaith Môn am weld amserlen ar gyfer rhyddhau data dienw, gan ganiatáu i'r blynyddoedd cynnar a'r ysgolion flaengynllunio o 2019 ymlaen. O ystyried buddiant y partïon, pwysleisiwn nad yw'n addas i'r cyhoedd gasglu fod Horizon yn elwa o arbedion drwy oedi, tra bydd y plant yn dioddef yn addysgol a CSYM yn ysgwyddo'r baich ariannol o ganlyniad i unrhyw oedi.</p> <p>9. Pwysleisiwn wendid paratodau Horizon i liniaru'r effaith oherwydd diffyg buddsoddiad mewn cynllunio ieithyddol pwrpasol ac amharodrwydd i dderbyn cyngor gan arbenigwyr yn y maes. Mawr obeithiwn y bydd y cwmni'n adnabod y diffygion yn eu paratodau ac yn ailystyried y mesur lliniaru pwysig hwn.</p> <p>10. Nid oes yma chwaith fanylion am y camau lliniaru ar gyfer plant nad oes ganddynt Gymraeg na Saesneg. Gofynnwn am eglurhad ynghylch sut bydd y broses o drochi'n gweithio, ac ym mha drefn y bydd hyn yn digwydd i blant o'r fath.</p> <p>11. Mae gan y datblygiad y potensial i newid canran siaradwyr Cymraeg Môn yn andwyol iawn a bydd y siaradwyr Cymraeg yn dod yn lleiafrif am y tro cyntaf erioed.</p> <p>Gallai hyn effeithio ar agweddau darparwyr eraill tuag at y cymunedau gan leihau ymdrechion i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, gan fod mwy yn siarad Saesneg. Gallai hefyd arwain at rwystredigaeth neu wrthdaro gan siaradwyr Cymraeg sy'n gweld colli eu hiaith a'u diwylliant. Nid oes tystiolaeth fod Horizon wedi gwerthuso hyn a chynnig mesurau lliniaru.</p>			
	<p>Mesur 17 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Datblygu pecynnau croeso i</p>	FfIM025	<p>Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)</p>	<p>1. Wrth gwrs mae pecyn croeso i'w groesawu ond unwaith eto megis dechrau yw hyn i liniaru graddfa effaith y datblygiad ar iaith y cymunedau. Mae'r cymunedau ar draws Môn am weld gostyngiad o ran y canran o siaradwyr Cymraeg, gyda rhai yn gostwng cymaint â 17%. Ymddengys fod Horizon yn dibynnu ar ymchwil a chasglu data yn hytrach nag arbenigedd cynllunio ieithyddol ymlaen llaw</p>	<p>Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn cytuno y bydd pecynnau croeso yn cael eu darparu i weithwyr a'u teuluoedd. Bydd llawer o'r rhwymedigaethau eraill yn adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cyfrannu at integreiddio gweithwyr a'u teuluoedd.</p> <p>Bydd Swyddogion Cynnwys y Gymuned a'r Swyddog Iaith Gymraeg, a gaiff eu sicrhau yn adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019)</p>	Ni chytunwyd ar hyn	

¹¹ Baker, C (2014). *A Parents' and teachers' Guide to Bilingualism*. Pedwerydd Argraffiad.

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
	deuluoedd gweithwyr y Prosiect			<p>wrth gynnig mesurau lliniaru effaith yn y cymunedau.</p> <p>Un enghraifft: 'Gweithredu'n Lleol – Fframwaith gan y Ganolfan Iaith wedi'i ddiweddarau a'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru 2014 ar gyfer cynllunio iaith micro ymysg cymdogaethau Cymraeg eu hiaith https://llyw.cymru/topics/welshlanguage/publications/gweithredun-lleol-resource-pack/?lang=cy</p> <ol style="list-style-type: none"> Mae pryder o hyd ynghylch y Pecyn Croeso, does dim modd monitro bod y rhain yn cael eu darllen a'u hystyried heb fod yn rhan o becyn cymunedol ehangach. Goddefol yw'r cam lliniaru yma – mae'n teimlo fel tic mewn bocsb heb ddechrau mynd i'r afael â gwir effaith gweithwyr a'u teuluoedd ar ein cymunedau. Bydd gofyn i'r wybodaeth a ddarperir i deuluoedd gyfleu cymuned groesawgar a digwyddiadau cymunedol i gefnogi hyn. Mae angen buddsoddi i greu 'pecyn' sy'n fwy na Llyfryn Croeso yn unig i gynnig cyfleoedd i gymhathu cymunedau. Mae angen cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg, i gymhathu siaradwyr newydd, newydd-ddyfodiaid a siaradwyr rhugl. <p>"why we should care about dying languages at all? We should care for the very same reason that we care when a species of animal or plant dies. It reduces the diversity of our planet. ... the issues are the same. Enshrined in a language is the whole of a community's history, and a large part of its cultural identity. The world is a mosaic of visions. To lose even one piece of this mosaic is a loss for everyone." (tudalen 339, 2006)¹²</p> <ol style="list-style-type: none"> Nid yw'r mesurau'n cydnabod gwaith yr holl grwpiau cymunedol sydd eisoes yn buddsoddi i gynnal y Gymraeg: Menter Iaith Môn, Menter Môn, Medrwn Môn, Mudiad Meithrin, yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Theatr Ieuenctid Môn, Côr yr Ynys, Theatr Fach, Clybiau Chwaraeon, Clybiau Ieuenctid, y capeli a'r eglwysi, clybiau cinio a llenyddol, Merched y Wawr, Canolfan Dysgu Cymraeg ac yn arbenigo ar wead eu cymunedau – y cynghorau cymuned a thref. Mae'r rhain i gyd yn buddsoddi eu 	<p>yn cyfrannu at integreiddio gweithwyr a'u teuluoedd, yn ogystal â meithrin gallu a hyder y boblogaeth leol. Bydd gan CSYM rôl allweddol, fel cyflogwr, wrth lunio rolau'r swyddogion hyn.</p> <p>Bydd mudiadau cymunedol yn gallu cyflwyno cais i'r Gronfa Gymunedol a sicrhau yn Atodlen 12, adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019).</p> <p>Bydd y Cyfraniad (Blynnyddol) at Addysg Gymraeg a'r Gronfa Addysg Gymraeg (Wrth Gefn) yn cefnogi'r broses o integreiddio plant y gweithlu.</p> <p>Bydd Horizon yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob gweithiwr a bydd pecynnau croeso yn cael eu rhoi i bob teulu. Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn datgan y bydd angen i Horizon ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r Gweithlu, a bydd gofyn i aelodau staff ddangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o'r Polisi Iaith Gymraeg.</p>		

¹² How Language Works, David Crystal 2006

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>hamser a'u hadnoddau i geisio cynnal a gwella canran y siaradwyr Cymraeg ym Môn.</p> <p>Achieving success in language learning: "Motivation is a central factor...Attitude towards the foreign language is important. If a student perceives a country or culture to be unpleasant, for whatever reason, the negative attitude is likely to influence language learning achievement – and conversely...Exposure... needs to be regular...Exposure to native users." (tudalen 435, 2006)¹³</p> <p>6. Croesewir fod hyn yn rhan o adran 106 y DCO rhwng CSYM a Horizon. Fodd bynnag mae Menter Iaith Môn a'r partneriaid uchod mewn sefyllfa gref i gyflawni'r gwaith hwn; mae angen eglurder ar lywodraethiant a threfn gweithredu adran 106 y DCO a rôl y mudiadau llai yn y broses.</p> <p>7. Mae pryder o hyd am y diffyg dealltwriaeth ynghylch rôl Cydlynedd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a gwariant adran 106 y DCO.</p> <p>8. Mae pryder o hyd am y Buddsoddiad i godi ymwybyddiaeth a hyder teuluoedd sy'n siarad Cymraeg yn lleol o ran pwysigrwydd cynnal a rhannu'r iaith Gymraeg yn y gymuned.</p> <p>Dylid cyfeirio at 'Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd', Ymchwil gan Lywodraeth Cymru 2017 yn y cyd-destun hwn ¹⁴ sy'n ateb y ddau gwestiwn ynghylch yr hyn sy'n dylanwadu ar drosglwyddo'r iaith Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. Mae'n frith o ddata yn ogystal ag enghreifftiau gan unigolion sy'n cyfleu pa mor gymhleth yw trosglwyddo iaith hyd yn oed i siaradwyr Cymraeg, sy'n byw mewn cymuned gyda chanran uwch o bobl na allant siarad Cymraeg: ee rhiant o Ynys Môn yn esbonio na fydd yn newid i'r Gymraeg os yw ei phlentyn yn siarad Saesneg â hi:</p> <p>"Os mae hi'n dechrau [siarad Saesneg] wnai ddim newid o, faswn i ddim yn specifically neud o ar wrpas ond fatha, dwi'n meddwl am bod nhw'n</p>			

¹³ How Language Works, David Crystal 2006

¹⁴ Llywodraeth Cymru, 2017. *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd* Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170612-welsh-language-transmission-use-in-families-cy.pdf>

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>watchad programmes Saesneg yna os ma nhw'n chwarae efo 'My Little Pony' ma o'n dod yn naturiol iddyn nhw siarad Saesneg... ac hefyd dwi'n meddwl bod na blant Saesneg ac ar yr iard ma na Saesneg yn mynd mlaen.' Mam – Ynys Môn (tudalen.120, 2017)¹⁵</p> <p>'Adroddodd Lyon (1996¹⁶) fod mwyafrif clir o'r holl rieni yn ei harolwg fel rhan o'i gwaith ymchwil ar Ynys Môn (85%) yn dymuno i'w plant fod yn rhugl yn y Gymraeg' (tudalen.33, 2017)</p> <p>9. Mae pryder o hyd ynghylch sicrhau bod teuluoedd sydd yn dod i mewn i'r ardal yn ymwybodol o gyfleoedd i fod yn weithredol gyda'r trydydd sector sy'n cyfoethogi cymunedau. Mae holl bartneriaid Fforwm Iaith Môn yn barod i gydweithio gyda Chydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i wireddu hyn.</p>			
Mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â gwasanaethau cymunedol a lleol	<p>Mesur 18 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Cefnogi cynrychiolwyr iaith cymunedol</p>	FfIM026	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<ol style="list-style-type: none"> 1. Croesewir rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned ac mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn am fanylion eu swyddogaethau a chadarnhad y bydd y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn. 2. Mae Fforwm Iaith Môn angen rhagor o wybodaeth. Nid yw'n glir a oes buddsoddiad ariannol i gefnogi'r Swyddogion hyn y tu hwnt i gostau'r swyddi. 3. Mae Fforwm Iaith Môn angen rhagor o wybodaeth. Nid yw'n glir beth yw rôl y mudiadau sydd eisoes yn gwasanaethu'r gymuned leol hon. Dylid cynnwys partneriaid ee Menter Môn, yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Dysgu Cymraeg, Menter Iaith Môn, Medrwn Môn... yn y trafodaethau hyn. 4. Fodd bynnag, gwêl Fforwm Iaith Môn un gwendid sylfaenol yn y mesur lliniaru sydd unwaith eto'n codi amheuan ynghylch dealltwriaeth Horizon o ran cynllunio ieithyddol wrth liniaru effaith "Cefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned" - yng nghyd-destun y Gymraeg ym Môn, mae hyn yn ddiystyr oni fo'n golygu y bydd y datblygwr yn cefnogi mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg. Mae Fforwm Iaith Môn angen rhagor o wybodaeth – dylid 	<p>Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn cytuno y bydd Swyddogion Cynnwys y Gymuned yn cael eu cyflogi a'u hariannu gan y prosiect. Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cynnwys rhwymedigaeth y bydd Horizon yn cyflogi dau Swyddog Cynnwys y Gymuned ac yn ariannu CSYM i gyflogi dau Swyddog Cynnwys y Gymuned yn ogystal â Swyddog Iaith Gymraeg. Bydd y Swyddog Iaith Gymraeg a'r Swyddogion Cynnwys y Gymuned yn arwain ar ddarparu gwasanaethau iaith cymunedol a allai gynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi priodol a chyflwyno'r rhain i grwpiau cymunedol.</p> <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cynnwys rhwymedigaeth i ddarparu Cronfa Gymunedol er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau anniriaethol a gweddilliol Prosiect Wylfa Newydd ar y cymunedau ym Mhrif Ardal yr Astudiaeth Economaidd-Gymdeithasol (KSA) drwy gynlluniau, mesurau a phrosiectau sy'n hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol y cymunedau hynny ac yn gwella'u hansawdd bywyd. Bydd Swyddogion Cynnwys Cymunedau'n rhoi cymorth i grwpiau sy'n dymuno cael mynediad at y Gronfa Gymunedol.</p>	Ni chytunwyd ar hyn	

¹⁵ Llywodraeth Cymru, 2017. *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd* Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170612-welsh-language-transmission-use-in-families-cy.pdf>

¹⁶ Lyon, J. 1996. *Becoming Bilingual: Language Acquisition in a Bilingual Community*. Clevedon: Multilingual Matters.

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>ystyried rôl partneriaid Fforwm Iaith Môn i wireddu hyn.</p> <p>5. Deunyddiau hyfforddi priodol – nid yw'n eglur beth yw ystyr hyn.</p> <p>6. Gwasanaethau iaith cymunedol – angen eglurder. Ansicr ai offer cyfieithu ynteu darpariaeth gofal plant i drochi yn y Gymraeg sy'n cael ei gynnig yma.</p> <p>7. Mae tensiynau posibl a allai godi am resymau amrywiol gan gynnwys iaith. Mae angen rhagor o wybodaeth ar Fforwm Iaith Môn sy'n dangos i ba raddau y mae'r heddlu yn derbyn cefnogaeth i leihau'r tensiynau hyn, gan sicrhau gweithlu dwyieithog i weithio yn y cymunedau ochr yn ochr â Swyddogion Cynnwys y Gymuned.</p> <p>Gwrthdaro cymunedol posibl: "Linguistic conflicts due to divided ethnic and national loyalties are often bitter and violent. In recent years, there have been major incidents in several countries, such as India, Spain, Canada (Quebec), Belgium, the USA, South Africa, and the Celtic-speaking areas of Britain. The reasons for conflict vary greatly. In some cases, the use of a language is declining, and the reaction is a desperate attempt to keep it, and the community it represents, alive. ... One reason is that language provides a particularly clear link with the past – often the only detailed link, in the form of literature." (tudalen 303, 2006)¹⁷</p>			
	<p>Mesur 19 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Cefnogi'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar</p>	FfIM027	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<p>1. Ail ran mesur lliniaru a geir yma. Y rhan gyntaf yw blaengynllunio gyda'r data a'r buddsoddiad yn cael eu rhyddhau gan y datblygwyr ymlaen llaw er mwyn i'r darparwyr allu trefnu capasiti (gweler y sylwadau ar gyfer FfIM 021). Ail ran y lliniaru fydd parhau i fonitro ac ymateb yn barhaus ac mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu hyn.</p> <p>2. Nid oes ymrwymiad i fuddsoddi yma. Mae Fforwm Iaith Môn yn cefnogi'r ffaith fod hwn yn rhan o adran 106 y DCO, sy'n gytundeb cyfreithiol ond sut bydd y mudiadau eraill fel Mudiad Meithrin a Menter Iaith Môn yn cael mynediad at fuddsoddiad ariannol gwirioneddol.</p>	O ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar, mae Atodlen 6 adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi y caiff CSYM ddefnyddio'r Gronfa Addysg (Wrth Gefn) ar gyfer darpariaeth cyn ysgol.	Ni chytunwyd ar hyn	

¹⁷ How Language Works, David Crystal 2006

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>3. Mae pryder o hyd ynglŷn â diffyg manylion ee cronfa wrth gefn ar gyfer hyn.</p> <p>4. Mae derbyn yr wybodaeth hon yn amserol yn hanfodol er mwyn cynllunio gwaith Menter Iaith Môn - does dim capasiti naturiol gan y Fenter i fod yn ateb y galw heb fuddsoddiad ychwanegol. Nid yw'n dwf naturiol yn y boblogaeth, mae'n ymateb uniongyrchol i Brosiect DCO Wylfa Newydd, ac mae angen lliniaru effaith hynny yn ariannol.</p> <p>5. Prif rôl Menter Iaith Môn yw gwireddu Thema 2, Strategaeth 2050 Llywodraeth Cymru sef Cynyddu Defnydd yr Iaith Gymraeg. Heb sicrwydd ar gyfer y camau hyn, gallai'r datblygiad danseilio a gwrthwneud gwaith a buddsoddiadau Mentrau, elusennau a mudiadau ym Môn ac ymroddiad partneriaid Fforwm Iaith Môn i Strategaeth Iaith Ynys Môn i gyrraedd 60% erbyn 2021.</p> <p>6. Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ddyinion a merched ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiad o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang a berchir yng Nghymru. Erbyn hyn, mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers ei sefydlu yn 1922. Nid oes modd gor-bwysleisio pwysigrwydd y mudiad yng Nghymru. Mae ei gyfraniad i genedlaethau yng Nghymru, i fywydau, i hyder ac i iechyd meddwl ein pobl ifanc dros y blynyddoedd wedi bod yn anferth. Mae angen sicrwydd y bydd Horizon yn cefnogi ymdrechion Urdd Môn i barhau â'r weledigaeth uchod.</p> <p>7. Yn fras, gall 9000 o weithwyr ar ynys â phoblogaeth o 70,000 ble mae 57% yn siarad Cymraeg olygu 10% yn fwy o siaradwyr di-Gymraeg gan wneud y Gymraeg yn iaith leiafrifol, am y tro cyntaf erioed. O ran datblygu ieithyddol, mae cymuned gyda llai na 70% o siaradwyr Cymraeg yn galw am weithredu rhagweithiol i gynnal yr iaith.</p> <p>8. Mae pryder yn parhau ynglŷn â rôl Cydlynedd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar y cam hwn.</p> <p>9. Mae Fforwm Iaith Môn yn cydnabod bod rhai effeithiau cadarnhaol i'w nodi hefyd, ond heb ymrwymadau pendant, gallai hyn danseilio a gwrthwneud gwaith a buddsoddiadau Mentrau, elusennau a mudiadau ym Môn dros ddegawdau.</p>			

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
	<p>Mesur 20 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Cefnogi gwasanaeth cyfieithu cymunedol</p>	FfIM028	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<ol style="list-style-type: none"> Ymddengys hwn yn fesur lliniaru synhwyrol ac mae Fforwm Iaith Môn yn annog y datblygwr i gynnal y cyfarfodydd cyswllt yn y Gymraeg a chydabod mai ar gyfer y di-Gymraeg mae'r offer cyfieithu. Nid yw'n eglur a yw'r datblygwr hefyd yn cyllido gwasanaethau'r cyfieithydd, sef y brif gost dros amser. Bydd Cynghorau Cymuned a mudiadau lleol yn croesawu defnydd o'r offer a'r gwasanaeth cyfieithu. Mae Fforwm Iaith Môn yn pryderu fodd bynnag mai'r 'mater' y cyfeirir ato ar gyfer y mesur lliniaru hwn yw "lliniaru effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlifiad o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth" – nid yw'n ymddangos bod y mesur yn cyfateb i'r broblem yma, neu'n crafu'r wyneb yn unig. I ategu, nid yw'n ymddangos bod y datblygwr yn ymdrin â difrifoldeb y bygythiad i'r Gymraeg yn ein cymunedau 2001 - 60% o siaradwyr Cymraeg, 2011 - 57% o siaradwyr Cymraeg, Buddsoddiad gan y llywodraeth, y sir, ac asiantaethau i wydroi'r ganran ac anelu am 60.1% fel rhan o ymdrechion Cymraeg 2050. Ond yn awr bydd mewnlifiad o hyd at 9,000 o bobl ddi-Gymraeg i'r ynys - nid yw'r raddfa wedi'i gweld erioed o'r blaen ac mae'n fygythiad gwirioneddol i ddyfodol yr iaith ar yr ynys. Nid yw offer cyfieithu yn gwneud cyfiawnder a'r 'mater' dwys hwn ac unwaith eto yn tanseilio hygrededd yr ymgynghoriad ar gynllunio ieithyddol i liniaru effaith y datblygiad ar ein treftadaeth. <p>"How languages die...Cultural assimilation is an even bigger threat. Much of the present crisis stems from the major cultural movements which began 500 years ago, as colonialism spread a small number of dominant languages, such as English, Spanish, Portuguese, and French, around the world. When one culture assimilates to another, the sequence of events affecting the endangered language seems to be the same everywhere.</p> <p>There are three broad stages. The first is immense pressure on the people to speak the dominant</p>	<p>Mae Horizon a Fforwm Iaith Môn yn cytuno y bydd Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol yn cael ei gyllido drwy gyfrwng adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019).</p> <p>Mae nifer o fesurau eraill sy'n helpu gweithwyr a'u teuluoedd i integreiddio yn cefnogi'r mesur hwn. Bydd pecynnau croeso yn cael eu rhoi i weithwyr a'u teuluoedd. Bydd Swyddogion Cynnwys y Gymuned a'r Swyddog Iaith Gymraeg, a gaiff eu sicrhau yn adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn cyfrannu at integreiddio gweithwyr a'u teuluoedd, yn ogystal â meithrin gallu a hyder y boblogaeth leol. Bydd gan CSYM rôl allweddol, fel cyflogwr, wrth lunio rolau'r swyddogion hyn.</p> <p>Bydd mudiadau cymunedol yn gallu cyflwyno cais i'r Gronfa Gymunedol a sicrhau yn Atodlen 12, adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019).</p> <p>Bydd y Cyfraniad (Blynyddol) at Addysg Gymraeg a'r Gronfa Addysg Gymraeg (Wrth Gefn) yn cefnogi'r broses o integreiddio plant y gweithlu.</p> <p>Bydd Horizon yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob gweithiwr a bydd pecynnau croeso yn cael eu rhoi i bob teulu. Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn datgan y bydd angen i Horizon ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r Gweithlu, a bydd gofyn i aelodau staff ddangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o'r Polisi Iaith Gymraeg.</p>	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth	
				language – pressure that can come from political, social, or economic sources. It might be 'top down', in the form of incentives, recommendations... But wherever the pressure has come from, the result – stage two is a period of emerging bilingualism, as people become increasingly efficient in their new language while still retaining competence in their old. Then, often quite quickly, this bilingualism starts to decline, with the old language giving way to the new. This leads to the third stage in which the younger generation becomes increasingly proficient in the new language, identify more with it, and finding their first language less relevant to their new needs. This often accompanied by a feeling of shame about using the old language, on the part of the parents as well as their children. Parents use the old language less and less to their children, or in front of their children; and when more children come to be born within the new society, adults find fewer opportunities to use that language to them. Those families who do continue to use the language find there are fewer other families to talk to....Outside the home, the children stop talking to each other in the language. Within a generation – sometimes even within a decade – a healthy bilingualism within a family can slip into a self-conscious semilingualism, and thence into a monolingualism." (tudalen 337, 2006) ¹⁸				
Mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag atebolrwydd	<p>Mesur 21 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Sicrhau bod y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a Pholisi Iaith Gymraeg Horizon yn cael eu goruchwyllo'n fewnol.</p>	FfIM 029	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<ol style="list-style-type: none"> 1. Angen cadarnhau'r aelodaeth. 2. Yn ôl yr hyn y mae Fforwm Iaith Môn yn ei weld, nid oes 'Strategaeth', dim ond cyfres o fesurau. 3. Mae pryder o hyd ynghylch cyflawni'r Strategaeth, gan fod yr ymrwymadau ynghlwm ag adran 106 DCO. Nid yw'n eglur sut bydd y Grŵp Rheoli hwn yn dod o fewn y strwythur ar ôl i'r cytundeb â'r awdurdod lleol gael ei ffurfioli. 4. Mae pryder o hyd ynghylch grym y Grŵp Rheoli o ran ceisio dylanwadu a chael effaith ar rai o benderfyniadau Horizon. 5. Mae pryder o hyd ynghylch perthynas Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant â'r grŵp hwn - diffyg manylion a strwythur. 	<p>Bydd Horizon yn sefydlu grŵp rheoli mewnol, fel sy'n cael ei sicrhau yn adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019). Diben y grŵp fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • goruchwyllo perfformiad ac ymrwymadau iaith Gymraeg y Datblygwr yn fewnol, gan gynnwys ei Bolisi Iaith Gymraeg; a • helpu Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i gyflawni'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. <p>Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch aelodaeth, ond bydd yn cynnwys Pennaeth Datblygu Strategol (Cymru) a Chydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Mae hefyd yn debygol o gynnwys Swyddog Cynnwys y Gymuned Horizon, yn ogystal â staff Adnoddau Dynol, cadwyn gyflenwi, hyfforddi, rheoli rhanddeiliaid a chyfathrebu Horizon. Bydd rhai aelodau o'r grŵp (ee Pennaeth Datblygu Strategol Cymru, Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant) yn aelodau o Grŵp Ymgysylltu'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant hefyd.</p>		Ni chytunwyd ar hyn	

¹⁸ 'How Language Works', David Crystal 2006

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
				<p>6. Nid yw'r berthynas rhwng y Grŵp Rheoli hwn a'r Grŵp Rhanddeiliaid Allanol yn eglur (mesur 22 – FfIM 030).</p> <p>Dylai adroddiadau rheolaidd ar ganrannau siaradwyr iaith, Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru (Cymraeg 2050) a strategaethau iaith Gymraeg lleol fod yn eitemau sefydlog ar yr agenda er mwyn rhoi cyd-destun ehangach i'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal.</p>			
	<p>Mesur 22 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei goruchwyllo'n allanol</p>	FfIM030	<p>Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae Fforwm Iaith Môn yn croesawu sefydlu Grŵp allanol hyd-braich, ond nid yw'r rôl, yr aelodaeth, arbenigedd yr aelodau na dylanwad y grŵp yn eglur. 2. Nid yw rôl y Grŵp hwn o ran adran 106 y DCO yn eglur - mae angen rhagor o wybodaeth ar Fforwm Iaith Môn. 3. Er mwyn defnyddio amser ac arbenigedd partneriaid lleol yn effeithiol, gofynnwn am amserlen a threfniadau ar gyfer cofnodi a monitro effaith camau gweithredu'r Grŵp. Mae profiad diweddar o ymgynghoriadau Horizon yn dangos nad yw'r ymgynghori'n digwydd yn ddigon rheolaidd, ac nad yw'r sylwadau a'r adborth yn cael eu cofnodi a'u hadlewyrchu ym mhenderfyniadau Horizon bob amser. 4. Nid yw'n eglur a fydd y Grŵp yn adlewyrchu buddiannau cymunedau ar draws yr ynys. 	<p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi:</p> <p><i>Mae'r Datblygwr a'r Cyngor yn cytuno i sefydlu Grŵp Ymgysylltu'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant o'r Cam Gweithredu. Mae'r Partïon yn cytuno:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • y bydd yr aelodau a wahoddir i fod ar Grŵp Ymgysylltu'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Cyngor, y Datblygwr, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Menter Môn a Llais Ni; a • bydd y Datblygwr yn darparu cyllid ar gyfer cadeirydd annibynnol. <p><i>Mae'r Partïon yn cytuno mai dyma fydd dyletswyddau a chyfrifoldebau Grŵp Ymgysylltu'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Monitro sut caiff y rhwymedigaethau eu rhoi ar waith ar ran y Datblygwr a'r Cyngor, fel y nodir yn yr Atodlen hon; • Adolygu'r ffurflenni monitro a gyflwynir iddo yn unol â pharagraff [10.4]; • Adrodd yn ôl i'r Partïon am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'i diwylliant, yn ôl yr hyn y mae'r cynrychiolwyr wedi'i weld yn eu meysydd arbenigedd. 	Ni chytunwyd ar hyn	
	<p>Mesur 23 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg a'i diwylliant</p>	FfIM031	<p>Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Angen eglurder ynghylch perthynas y grwpiau. 2. Mae ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n gorgyffwrdd â mesurau 21 (FfIM 029) a 22 (FfIM 030). Yn ogystal â chynrychiolaeth leol, byddai'n syniad da cynnwys cynrychiolwyr o bwyllgor Unllais a fyddai'n cynrychioli'r ynys gyfan. 	<p>Mesur 21 Grŵp Ymgysylltu'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Mae Mesur 22 yn ymwneud â grŵp rheoli mewnol Horizon ar y Gymraeg a'i Diwylliant.</p> <p>Mae adran 106 y DCO Drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyn gweithredu, bydd Horizon yn cytuno â'r Cyngor, ac mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, ar bamedrau ar gyfer gwerthuso effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth bob blwyddyn. • Ar ôl hynny, bydd Horizon yn cynnal y gwerthusiad bob blwyddyn yn unol â'r paramedrau cymeradwy tra bydd y Cyfnod Adeiladu'n parhau (5 mlynedd o gychwyn y Cyfnod Gweithredu). 	Ni chytunwyd ar hyn	

Pwnc	Is-bwnc	Cyfeirnod Datganiad Tir Cyffredin	Cyfeirnod y Ddogfen/Cyfeiriad/Trywydd	Safbwynt Fforwm Iaith Môn	Safbwynt Horizon	RAG	Camau eraill i'w cymryd er mwyn symud ymlaen â'r drafodaeth
	<p>Mesur 24 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant</p> <p>Gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg a'i diwylliant</p>	FfIM032	Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (APP-428) (Atodiad B4-1 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant)	<ol style="list-style-type: none"> 1. Angen rhagor o fanylion. Nid yw'n eglur beth yw'r weithdrefn ar ôl y cyfnod adeiladu o 10 mlynedd. 2. Unwaith eto, mae angen rhagor o eglurder, neu siart llif/diagram Venn i ddeall y gydberthynas rhwng mesur 21 (FfIM 029)/22 (FfIM 030)/23 (FfIM 031)/24 (FfIM 032) a'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd pan na fydd agweddau ar y mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. 3. Mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn i'r datblygwr gytuno mai amcan y mesurau lliniaru yw adfer yr Ynys i gael 60.1% o siaradwyr Cymraeg. Nid yw hyn yn ystyried y cynnydd pellach a fyddai'n dilyn buddsoddiad pellach gan y partneriaid ar ôl 2021, felly rhaid nodi mai negyddol yw effaith y datblygiad ar yr iaith Gymraeg. Ond gan gadw 60.1% mewn golwg - mae Fforwm Iaith Môn yn gofyn i Horizon ddarparu amserlen o beth yw ei amcangyfrif ar gyfer siaradwyr Cymraeg yr ynys bob blwyddyn, ac yn ôl gwaith ymchwil ieithyddol Horizon, erbyn pa flwyddyn y bydd Horizon wedi llwyddo i liniaru effaith y datblygiad ar y Gymraeg er mwyn i Fforwm Iaith Ynys Môn gyrraedd y targed o 60% o siaradwyr Cymraeg ar yr ynys unwaith yn rhagor. 	<p>Mesur 21 Grŵp Ymgysylltu'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Mae Mesur 22 yn ymwneud â grŵp rheoli mewnol Horizon ar y Gymraeg a'i Diwylliant.</p> <p>Mae adran 106 y DCO drafft (a rannwyd â Llywodraeth Cymru a CSYM ar 23 Ionawr 2019) yn nodi pa rwymedigaethau/mesurau sy'n ymwneud â'r cyfnodau adeiladu a gweithredu.</p>	Ni chytunwyd ar hyn	

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]